

CEFNOGI BANC BWYD LLEOL

Fe wnaeth Ysgol Sul Nebo gynnal 'Bore Rhoi' yn festri'r capel ar fore Sadwrn 11eg Rhagfyr. Bwriad y bore oedd casglu bwydydd addas ar gyfer banc bwyd lleol. Cafodd y bocsys bwyd hyn eu cyflwyno i Fanc Bwyd Sir Benfro yn Arberth fore dydd Mercher, 22 Rhagfyr. Mae Banc Bwyd Sir Benfro yn rhan o rwydwaith banciau bwyd Trussell Trust, a ddosbarthodd dros 2.5 miliwn o barseli bwyd brys y llynedd. Diolch i blant, pobl ifanc ac aelodau Capel Nebo am roi yn hael i'r elusen bwysig hon sy'n helpu'r rhai mewn argyfwng.



Mae galw am Fanciau Bwyd yn cynyddu ac mae llawer o gymunedau a chymdeithasau yn ardal Y Cardi Bach wedi cyfrannu'n hael iawn. Diolch yn fawr iddynt.

Ennill cystadleuaeth hamper Facebook Y Cardi Bach



Eurfyl Lewis (Cadeirydd y Cardi Bach) yn cyflwyno hamper i Robert Benjamin, Hendygywn - enillydd cystadleuaeth Nadolig tudalen facebook y Cardi Bach. Llongyfarchiadau mawr gan ddymuno gwell iechyd iddo i'r dyfodol.

Neuadd y Farchnad, Llanboidy

**NOSON FAWR
CLWB 200 Y CARDI BACH**

a Noson Gwis

yng ngofal Iola Wyn

**Nos Wener, Chwefror 18, 2022
am 7.30 y.h.**

tîmau o 4 - £50 i'r tîm buddugol

Y bwriad yw cynnal y cwis ond os bydd rhaid canslo oherwydd cyfyngiadau Covid-19 fe fydd tynfa'r Raffl Fawr yn rhithiol ar Zoom. Dyma'r manylion:

<https://us02web.zoom.us/j/85322420205?pwd=L0gwYmd1c2RjSndPaFdoTjMrSjA3QT09>

Meeting ID: 853 2242 0205

Passcode: 180222

Y CARDI BACH

Golygydd:	Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cadeirydd a Dosbarthwr Is-gadeirydd:	Eurfyl Lewis 01994 419495 Iola Wyn 07870 100831
Ysgrifennydd:	Beti Wyn James 01994 230966
Trysorydd, Ffotograffydd, Dosbarthwr drwy'r post a Hysbysebion:	Roy Llewellyn 01994 448283
Trysorydd y Clwb '200':	Rhian White 01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen Evans 01994 448447
Cystadleuaeth	John Arfon Jones 01994 240536
Cornel y Dysgwyr::	Albie Abbott 01239 831641
Tudalen y Plant: Llewyrch i'm Llwybr:	Llinos Mair Thomas
Cornel Coginio:	WinnieJames 01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans 01994 448392 Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cornel Garddio:	John Davies 01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Colofn y Mis

Fis Chwefror 2020, roeddwn i yn neuadd Ysgol Henry Richard yn beirniadu Eisteddfod Cylch Tregaron. Wrth ddewis y buddugol ym mhob cystadleuaeth, rydw i'n arfer rhoi ychydig o awgrymiadau a chynghorion yn fy meirniadaeth ar gyfer yr Eisteddfod Ranbarth. Fe wnes i hynny y prynhawn hwnnw, yr un fath ag arfer, ond roeddwn i fwy neu lai'n gwybod i sicrwydd na fyddai Eisteddfod ranbarth yng Ngheredigion nac unrhyw ranbarth arall yn Nghymru yn yr wythnosau canlynol.

Yr Eisteddfod Gylch honno oedd y digwyddiad torfol ola i mi ei fynychu cyn dechrau'r pandemig. Meddyliwch fy mod i wedi eistedd ysgwydd wrth ysgwydd â'r beirniad cerdd, heb ofyn iddo am ganlyniad ei PCR! Dyna beth roedden ni yn ei wneud yn gwbwl naturiol yn yr oes a fu!

Digon troellog a pheryglus yw'r daith i Dregaron ar hyd ffyrdd Betws Bledrws, Llangybi ac Olmarch. Ac wrth i mi deithio am adre o'r Eisteddfod Gylch yn hwyr y prynhawn hwnnw, roedd hi'n amlwg fod taith ddieithr o fy mlaen.

Cyn y daith honno, Twm Sion Cati a'i debyg oedd yn gwisgo mygydau, nid trigolion yr oes fodern dechnolegol hon. Doedd gen i ddim syniad ar y pryd be oedd Prawf Llif Unffordd neu LFT. Ac yn sicr, wnes i ddim rhagweld y byddem yn hanner byw yn Nant-y-ci yn gwthio swob i lawr fy ngheg a lan fy nhrwyn (yn y drefn gywir wrth reswm!) ac yn cael pigiadau yn fy mraich mewn car yn y sied fawr, sydd yn arfer arddangos cynnyrch Rali C.Ff.I. Sir Gâr. Ond mae PCR ac LFT, Pas Covid, thermomedr, hylifau di-heintio a mygydau yn rhan o'n bywydau bellach, a sawl un ohonyn nhw yma i aros, mae'n bur debyg.

Bron ddwy flynedd ers i mi adael Eisteddfod yr Urdd, Cylch Tregaron, mae trefnwyr yr Urdd newydd gyhoeddi eu bwriad i gynnal dros 200 o Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth heb gynulleidfa, gyda gwarchodwr neu riant yn bresennol. Mae hynny'n gam pwysig ymlaen yn y daith hir hon, wrth i ni geisio byw gyda'r pandemig. Mae'n bur debyg y bydd 2022 yn flwyddyn arall o addasu a cheisio cyflawni'r hyn sy'n bosib, yn y modd mwyaf rhesymol, tra'n ceisio gwarchod y mwyaf bregus.

Ond mae cynnal yr eisteddfodau hyn yn gam pwysig yn feddyliol, wrth i ni groesi bysedd y caiff Prifwyl Yr Urdd ei chynnal yn Sir Ddinbych fis Mai. Ac os y croeswn y bont honno, gallwn edrych ymlaen gobeithio at Eisteddfod Yr Urdd Sir Gâr yn 2023.

Ac wrth gwrs, cyn hynny, dwi'n mawr obeithio y byddai'n gyrru unwaith eto trwy Betws Bledrws yr haf hwn, i'r Brifwyl yng Ngheredigion.

Wrth yrru o Dregaron yn Chwefror 2020, roedd cymylau enfawr o ansicwydd, pryder a diflasdod uwchlaw. Os y troediwn ar faes Tregaron yn haf 2022, mi fydd y cymylau hynny wedi clirio rhywfaint.

Am unwaith, go brin y bydd unrhywun awydd cwyno am fwd, glaw, gwynt, na diffyg teilyngdod. Ond mae angen i ni deithio'n ofalus trwy sawl Betws Bledrws cyn i ni i gyrraedd porfeydd bras Tregaron.

Iola Wyn, San Cler

Cyngor Cymuned Llanwinio

yn eisiau

Clerc

Am fanylion pellach cysylltwch â
Ross Gallie ar:

clerk@llanwiniocommunitycouncil.com

GOHEBWYR LLEOL

<u>ALMA:</u>	Margaret Evans 01994 230761
<u>BANCYFELIN:</u>	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
<u>BLAENWAUN:</u>	Tegwen James 01994 448223
<u>CAPEL MORIAH</u> (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
<u>CEFNYPANT:</u>	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
<u>CLUNDERWEN:</u>	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
<u>CWMBACH:</u>	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
<u>CWM MILES:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>CWMFELIN</u>	Nansi Evans
<u>MYNACH:</u>	01994 448392
<u>EFAILWEN:</u>	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
<u>GELLIWEN:</u>	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
<u>HENDY-GWYN:</u>	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com Y Parch. Guto Llywelyn (Newyddion Tabernacl) 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
<u>HENLLAN -</u> <u>FALLTEG:</u>	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
<u>LOGIN:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>LLANBOIDY:</u>	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
<u>LLANDYSILIO:</u>	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
<u>LLANGLYDWEN:</u>	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
<u>LLANGYNIN:</u>	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
<u>MEIDRIM:</u>	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
<u>PENYBONT:</u> <u>PWLLTRAP:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>RHYDYCEISIAID:</u>	Doreen Adams 01994 240581
<u>RHYDWILYM:</u>	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
<u>SAN CLER:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>TRELECH:</u>	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR*gan Y Parchg Eirian Wyn Lewis*

Blwyddyn Newydd dda a chyfarfarchion cynnes i bawb ohonoch wrth inni fentro mewn ffydd i'r flwyddyn 2022. Ffarweliwyd â'r hen a chroesawyd y newydd a bellach rydym wedi hen gyfarwyddo â'r newydd, a sylweddoli nad oes fawr o wahaniaeth mewn gwirionedd rhwng yr hen a'r newydd!

Fe'n gelwir, serch hynny, i ddal ati ar waethaf pob difaterwch a beirniadaeth a sinigiaeth i fod yn *'halen y ddaear'* a *'goleuni'r byd'* - yn genhadon Crist ac yn gyd-adeiladwyr ei deyrnas. Nid yw'n ddigon i'r Efengyl fod yn berthnasol, rhaid i bobl weld ei pherthnasedd yn ein hymwneud ni â'n gilydd, yn ein cyfathrebu, ac yn ein byw. Y mae Gair Duw yn rhagdybio'r yfory, yn ein herio i symud ymlaen, i anwesu pob newid ac i fentro ar anturiaeth ffydd. Fe'n gelwir i fod yn *'halen a goleuni'* wrth inni estyn allan ac i gyhoeddi Efengyl sydd â'r gallu i newid bywydau pobl. Mewn cyfnod o ddirywiad crefyddol pan mae'n hystadegau yn tanlinellu'r gostyngiad yn aelodaeth ein heglwysi, ein cynulleidfaoedd yn merwino a'n hyder yn diflannu, y mae neges yr awdur at yr Hebreaid yn ein hannog i edrych o'n cwmpas ac i ryfeddu at yr hyn y mae Duw yn ei gyflawni, ac i dderbyn ein calonogi ganddo gan bod Duw ar waith, fel o hyd, o fewn ein gwlad a'n cymunedau. Nid dychwelyd i fannau lloches yw'n her i ni, ond i fentro allan mewn ffydd. *'Peidiwch ag encilio i ddiogelwch, i'r hyn sy'n gysurus, i'r rhigolau cyfarwydd ac aros rhwng y corlannau'*. Ac y mae'r dweud hwnnw yn adleisio'r rhybudd sydd yng ngeiriau Crist yn ei Bregeth ar y Mynydd, y rhybudd i sicrhau nad yw'r *'halen yn colli ei flas'* ac nad yw'r *'goleuni yn cael ei guddio dan lestr'*.

Pan fydd yr eglwys yn cyfaddawdu â'r byd a gostwng ei delfrydau fe gyll yr halen ei flas. Pan dry ein lampau yn gyfryngau i ddangos ein hunain yn hytrach na llewyrchu goleuni i eraill, fe beidia ein tystiolaeth. Mor hawdd ydyw dianc i batrymau ddoe, ymlochesi mewn mannau diogel a chodi'n hamddiffynfeydd. Pob hyn a hyn mi fydd Duw yn ein cymell ni i godi pac, i newid gwersyll ac i symud ymlaen a geilw hynny am wroldeb a menter ffydd. Geilw arnom i beidio bodloni ar bethau fel ag y maent ac i ymwrthod ag unrhyw gymhelliad o blaid y *status quo* sy'n peri inni oedi a sefyllian, neu ein dal yn ôl ar sail traddodiad a threfn. Mae na risg yn perthyn i bob anturiaeth ac onid ein galw i risgio'r cyfan y mae Iesu Grist. Galwad i ymgysregru yw galwad Iesu Grist, nid galwad i statws, ond galwad i wasanaethu. Galwad sy'n galw am ymateb ein cariad ni i'w gariad anorchfygol Ef.

Yn glo i'w anerchiad o gadair Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1983 dywed y Parchedig D. T. Evans, Minny Street, Caerdydd, *'Onid yw hi'n hen bryd i ni ddod allan o'n hunan-drueni sy'n peri i ni edrych yn ôl, fel pe bai Canaan eisoes wedi mynd heibio yn hanes yr Eglwys a mentro dathlu yn llawen a hyderus fod holl adnoddau Duw o'n plaid heddiw'*. Mae yna gân gan y grŵp *'Westlife'* sy'n tanlinellu pa mor eiddil ac annigonol yw ein hadnoddau ar adegau a bod angen inni ymddiried mewn nerth amgenach. Y mae'r nerth hwnnw i ni mewn Un sy'n *'Arglwydd tiriondeb a thawelwr y don, yn Arglwydd pob gobaith a hyder a chred'*.

Mae angen i ni weld ein gwasanaeth fel cyd-ymdrech a chyd-ddyheu er lles, yn hytrach na cheisio ymroi i gael y gorau ar yr arall yn barhaus. Gadewch i ni ymfalchïo ym mhob llwyddiant a phob stori dda yn hanes Ei Eglwys a'i fyd Ef.

CYSTADLEUAETH *gan John Arfon*

Hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda a gwell i bob un ohonoch a chan obeithio y cawsoch Nadolig weddol hapus gyda'ch anwyliaid, er yn anffodus fod hwyrach sawl sedd wag o gwmpas y ford oherwydd y flwyddyn gythryblus aeth heibio. Hyderwn yn fawr y bydd pethau'n gwella eleni er y bydd rhaid inni fod yn ofalus.

Mae gennyf ofn fy mod wedi eich llorio gyda'r posau mathemategol a roddais yn rhifyn Mis Hydref. Dim ond un cynnig ddaeth i law ac nid oedd hwnnw yn berffaith gywir.

Dyma'r atebion y dylech fod wedi eu cael:

1) 4 milltir yr awr; 2) 36 corned sengl a 12 corned dwbl; 3) 15 bachgen; 4) y ddau rif oedd 11 a 14, (Nid oedd 5 a 8 yn ateb gofynion y cwestiwn); 5) 72 munud; 6) 136 cm; 7) 192 ciwb; 8) 252 pleidlais; 9) 32 gitar a 25 ffidil; 10) Y nifer o weithiau yw 7 sef (60,15,0,0), (40,35,0,0), (40,20,15,0), (35,25,15,0), (30,30,15,0), (30,25,20,0) a (25,25,25,0).

Er na chafodd yr ymgeisydd y cyfan yn gywir, byddaf yn anfon gwobr gysur i Peter Crowdie San Cler am ei ymdrechion, gyda'm llongyfarchiadau mawr. Rwyn credu mai ef yw'r unig berson i roi ymdrech ar bob un o'r posau rwyf wedi eu rhoi o'r dechrau un.

Dyma atebion y cwrosw a'r chwilrif Mis Hydref:-

X	X	O	O	X	O
O	O	X	X	O	X
O	O	X	X	O	X
X	X	O	O	X	O
O	X	X	O	X	O
X	O	O	X	O	X

6	4	3	9	1	2	5	7	8
9	1	7	5	8	4	3	6	2
5	2	8	3	6	7	9	4	1
4	8	6	2	3	1	7	5	9
2	7	1	6	9	5	8	3	4
3	5	9	4	7	8	1	2	6
8	9	2	7	4	3	6	1	5
7	6	4	1	5	9	2	8	3
1	3	5	8	2	6	4	9	7

Dyma ddau bôs i'ch difyrru y mis hwn

X				X	
	O				
	O	X			X
			O		
	X		O	X	
X		O			


	4	3	9	1			7	
	1	7					6	
		8	3			9		
	8				1	7		
2				9		8		
		9	4					
					3			5
				5		2	8	3
1				2	6			

Oherwydd fod y posau wedi bod yn rhy galed ichwi yn ddiweddar, rwyf wedi gwneud adduned y flwyddyn newydd i roi rhai ychydig yn haws o hyn ymlaen. Gobeithiaf felly y cawn fwy ohonoch i gymeryd rhan yn y dyfodol.

Mae dwy ran i'r gystadleuaeth y mis hwn a rhaid eu hateb yn gywir os am ennill un o'r gwobrau.

(a) Y pês cyntaf yw ceisio cwblhau y croesair deiamwnt isod.

Cymerir ch, dd, ff ac yn y blaen fel un llythyren.



Ar Draws

2. Lliw perygl (3)
5. Defnyddir hwn i goginio yng Nghonwy (3)
6. Cymeryd lluniaeth (5)
9. Yma y gwelir y da (4)
10. Darn o gotwm (4)
12. "----- arf, arf dysg" (5)
14. Nifer o gantorion (3)
15. Ffrwythau'r dderwen. (3)

I Lawr

1. Adeilad i groesi afon (4)
3. Mae hon yn perthyn i'w brawd (5)
4. Rhan o gastell (3)
6. Llais canu isaf (3)
7. Sgwrs (5)
8. Cwrddodd Daniel y llewod yma (3)
11. Cael gafael yng ngwaelod yr Eidal. (3)
13. Ffrwyth lliwiog (4)


(b) Dyma'r ail bôs:-

Mynd o gam i gam ar hyd y ffordd droellog yw'r pês yma. Gan ddechrau gyda rhif 1, atebwch y cliwiau a roddir. Bydd pob ateb wedyn yn cychwyn gyda llythyren olaf y gair blaenorol ac yn y blaen. Os atebwch y cliwiau i gyd yn hollol gywir a'u rhoi i mewn yn y grid yn dilyn y trywydd, dylech gael enw lle yng Nghymru trwy ddarlenn ar draws y blychau llwyd.

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren.

Dyma'r cliwiau:

- | | |
|------------------------------|---------------------------------|
| 1. Porthladd yn y Gogledd. | 12. Tywyllu. |
| 2. Cyfenw Dafydd y canwr. | 13. Doniolwr o Dregaron. |
| 3. Chwant bwyd. | 14. Y rhain sy'n achosi pryder. |
| 4. Lliw. | 15. Pinacl. |
| 5. Addoldy'r Iddewon. | 16. Mintai fawr. |
| 6. Hylif y gwythiennau. | 17. Eglwyswr yng ngofal plwyf. |
| 7. Meddyg. | 18. Mewn hon yr aed i'r gofod. |
| 8. Diwifr. | 19. Llyfryn o ganeuon cymanfa. |
| 9. Galeri. | 20. Cymhleth. |
| 10. Darn o borfa o flaen tŷ. | 21. Lle i gadw nwyddau. |
| 11. Ticed. | 22. Llefaru. |



Cynigir gwobr o £5 i'r cyntaf allan o'r het a llyfr i'r ail am ateb y ddau bôs yn hollol gywir. Anfonwch eich atebion gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Mawrth 1af 2022 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill un o'r gwobrau. Cofiwch hefyd y dylech wneud yn siwr eich bod yn ymaelodi cyn gynted â phosibl os am y siawns o ennill un o'r gwobrau.

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, SA33 4JZ

Rhif ffôn: 01994 231338

e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Blwyddyn Newydd Dda i chi a dymunaf iechyd ac hapusrwydd i chi gyd.

Mae'n flwyddyn newydd i'r Clwb 200 hefyd a diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi. Fe welwch chi fod yna ffurflen ymaelodi'n amgaeedig yn y rhifyn hwn ar gyfer ei chwblhau a'i danfon ataf i. Bydd pawb sy'n ymaelodi'n cael cyfle i ennill yn fisol. Roedd gennym 662 o aelodau y llynedd ac edrychaf ymlaen at flwyddyn lewyrchus eleni eto.

Dyma enwau'r sawl wnaeth ymaelodi ddiwedd 2021, wedi i rifyn Tachwedd/Rhagfyr fynd i'r wasg:-

Elinor Jameson, Cil y Barcud, Meidrim.

Eleri Jones, 14a Clos Nathaniel, Pwll-Trap.

Diolch i chi gyd a chadwch yn ddiogel, Rhian

Tecwyn Ifan



(Seren y Chwe Degawd olaf)

Er ei fod wedi ymgartrefu yn Nyffryn Conwy ers sawl blwyddyn bellach, tybiaf mai ardal y Cardi Bach sef man ei fagwraeth sydd yn dal i fod yn ei wreiddiau a rhaid inni ymfalchio am ei lwyddiant dros yr holl flynyddoedd. Hyfryd yw cofnodi fod Tecwyn ym mis Medi diwethaf wedi rhyddhau ei nawfed albwm unigol, a hynny dros ddeugain mlynedd ers rhyddhau ei un gyntaf "Y Dref Wen" nôl yn 1977.

Cafodd "Santa Roja" ei ryddhau (Y Santes Goch) yn ystod wythnos penblwydd un o arwyr pennaf Tecwyn sef y bardd Waldo Williams, ac y mae cysylltiadau i'w gweld rhwng caneuon yr albwm a cherddi Waldo sy'n ymddwyn â themau gwladgarwch, heddwch, brawdgarwch a gobaith.

Ysbrydolwyd y gân 'Santa Roja' gan deitl nofel John Steinbeck am hanes Harri Morgan, y môr-leidr enwog o dras Cymraeg, a'i ddyhead i ddod o hyd i'r Santes Goch a'i hennill fel cariad, fel y gwelir mewn aml i gân serch y dyddiau hyn.

Caneuon gwreiddiol Tecwyn yw'r rhan fwyaf o'r albwm ond ceir geiriau o waith y Prifardd Mererid Hopwood yn y ddwy gân 'Gweithred Gobaith' a 'Gwenoliaid'.

Ymysg y caneuon eraill cewch 'Cofio Dryweryn' sy'n gân wladgarol, tra bod 'Hon yw'r Duw' a 'Tŷ Cwrdd' yn rhai crefyddol. Mae 'Sefyll Dros y Gwir' yn myfyrio ar wirioneddau bywyd a chân o heddwch yw 'Peidio Dysgu Rhyfel Mwy'. Ynghyd â'r caneuon gafaelfgar hyn, ceir dwy hen ffefryn arall sef 'Yn Harbwr San Ffransisco' a chyfieithiad Meredydd Evans o gân enwog Pete Seeger 'D'all Dwy Law'.

Trwy ei ddawn arnennig ei hun mae Tecwyn unwaith eto wedi rhoi gwledd arall inni, a gobeithiaf eich bod wedi cael y CD hon yn eich hosan Nadolig.

J.A.J

CORNEL Y DYSGWYR

Albie Abbot

Shwmae bawb

Gobeithio bod chi wedi joio'r Nadolig ac wedi cadw'n iach. Ry'n ni i gyd wedi cael llond bola o'r firws ac yn ysu ymweld â'n ffrindiau a theulu un-waith eto. Dyma dau beth i chi i ddechrau 2022.

Albie a Dee

CWRS UWCH (ii)

Tanlinellwch ffurfiau'r amherffraith.

A finnau'n fachgen, awn am dro gyda Wncwl Huw yn aml iawn. Crwydren ni ar hyd afon Taf neu ar fin y llyn, neu i fyny drwy'r coed i Fryn Serth. Yr oedd ef yn ddyn a minnau yn ddim ond crwt, ond gallech dyngu mai dau fachgen ryw naw oed oedden ni. Rhedai fy ewythr yn wyllt o'm blaen ger glan yr afon, cwmpai ar ei hyd weithiau i gymryd arno saethu Indiaid Cochion, safai ar un droed ar garreg lithrig yng nghanol yr afon, sleifai drwy wrych i chwilio am nythod, dringau goeden er mwyn hongian o un o'r canghennau. Ambell brynhawn Sadwrn, âi â mi cyn belled â Phontypridd. Daliai fy mam, wrth gwrs, fod fy ewythr yn fy nifetha'n lan.

"Cofia di, Huw, fi gaiff y drafferth gyda fe os daw e adre'n dost heno" dywedai. Ysgwydai fy ewythr ei ben yn ddwys a chymerai fy llaw i'm harwain yn araf a difrifol i lawr y stryd. Cerddwn innau wrth ei ochr fel petawn ar y ffordd i angladd yn hytrach nag i'r dref. Cyn gynted ag y troem i'r stryd fawr gollyngwn fy ngafael yn ei law a thaflau winc arnaf gan ymbalfalu ym mhoced gefn ei drowsus. Tynnai geiniog allan a'm gyrru o'i flaen i Siop y Gornel i brynu rhywbeth i'w gnoi ar y trênn."

Atodiad 3

Cadwch y geiriau sydd wedi'u tanliellu

Wyddwn i ddim bod chi yna.

Na wyddech, yn amlwg.

Wyddai fe ddim mod i yna.

Wydden nhw ddim bod ni yna.

Wyddech chi ddim mod i yna.

Chwilio am mreichled ro'n i.

Breichled? Pa freichled?

Chwilio am nghrys ro'n ni

Chwilio am nhei ro'n i

Chwilio am nillad ro'n i.

(b) Cân! Pa gan?

Honno dw i'n mynd i'w chanu.

(g) Car! Pa gar?

(g) Llyfr! Pa lyfr?

(g) Crys ! Pa grys?

Ro'n i'n meddwl bod chi'n gwybod

Nac o'n. Does neb yn dweud
dim wrtho i.

Ro'n i'n meddwl fod e'n gwybod

Ro'n i'n meddwl bod hi'n gwybod

Ro'n i'n meddwl bod nhw'n gwybod

Ydych chi wedi gweld ysbryd erioed?

Twt. Does dim o'r fath beth yn
bod.

Fuoch chi yng Nghwmawt erioed?

Pwy yw Dai Losin?

Beth yw ystyr 'sberwingan'?



**Pwdin Bara gyda 'Bailey's
a Saws Chwisgi**

Cynhwysion:-

4 owns o fenyn meddal

6 sleisen o fara gwyn

3 ½ owns o sultanas

3 wy mawr

9 owns (fl) o laeth llawn

¼ peint o hufen dwbwl

¼ peint o 'Bailey's

1 owns o siwgwr castor

1 owns o siwgwr Demerara

DYSGL i ddal 3 ½ peint

DULL:

Twymwch y ffwrn i wres 180°C,
350F, Nwy 4.

Taenwch y menyn ar y bara a torri
pob sleisen yn driongl.

Rhowch mewn trefn yn y ddysgl gan

roi'r sultanas rhwng y sleis

Curwch yr wyau a chymysgwch

gyda'r laeth, hufen, Bailey's a'r

siwgwr caster

Arllwyswch y cyfan dros y bara gan

wneud yn siwr fod y bara yn wlyb

drwyddo

Ysgwydwch y 'demerara' dros y top

a choginiwch am 30 munud nes bod

y pwdin yn setio a'r top yn euraid.

Mae'n flasus gyda saws chwisgi.

SAWS CHWISGI

5 owns o fenyn

4 owns o siwgwr brown meddal

5 owns o hufen dwbwl

3 llwy de o whisky.

Berwch y cyfan gyda'u gilydd nes ei
fod yn tewhau.



Speaking Welsh in front of you!

Roeddwn i'n mynd â'r ci am wâc rhyw fore pan gwrddais â Sais oedd am gyfarwyddiade gan ei fod yn "househunto" yn yr ardal. Ar ôl ei helpu a sgwrsio am tua 10 munud, roeddwn i'n dechre twymo at y boi, tan iddo fe ddweud "I lived in North Wales once, in the Wrexham area, hated it...and then you had the Welsh speakers speaking Welsh in front of you!"

Yn fy siom a'm sioc, methais feddwl yn ddigon sydyn am y ffordd orau o ymateb, ac erbyn hynny roedd wedi symud ymlaen i siarad am ryw beth arall. Fel gallwch ddychmygu, roedd fy amynedd at fy ffrind newydd wedi diflannu bron ar unwaith, ond cyn ffarwelio holais i ble'r oedd e'n mynd nesa? "Somewhere on the coast - Llan-rod or something" oedd yr ateb, ond Llangrannog oedd y lle. Dymunais yn dda iddo (yn fy nghwrteisi troedig) ond wnes i ddim rhoi cyfarwyddiade iddo fe'r tro hwn.

Roeddwn yn grac gyda f'hunan weddill y dydd am beidio dweud dim. Yn amlwg doedd y posibilrwydd y gallen i fod yn siaradwr Cymraeg ddim wedi croesi ei feddwl. Falle bod e'n meddwl ein bod ni gyd wedi marw o'r tir bellach. Ond roedd cyfle wedi bod gyda fi i ddangos iddo fe fod rhai ohonon ni o leiaf "yma o hyd", a bod angen iddo fe dderbyn hynny os oedd yn bwriadu symud i'r ardal hon. Ond na, fe wnes i beth rydyn ni'r Cymry'n euog ohono'n rhy aml, sef cadw'n dawel a cheisio peidio cynhyrfu. Rwy'n gwybod mai'r peth iawn fyddde ymateb yn gadarn ond yn bwyllog, ond pan fo'r hyn sydd dan sylw'n agos at y galon, rwy'n ofni ei bod yn anodd gwneud hynny weithie heb fod y pwyse gwaed yn dechre codi. Rhaid bod yn fwy parod tro nesa.

Nid rhyw ail iaith rydym yn ei thynnu mas o'r cwpwrt weithie yw'r Gymraeg, er mwyn bod yn lletchwith yng nghwmni pobol ddi-Gymraeg. Ond mae'n rhaid taw dyna mae llawer iawn o bobol, yn enwedig rhai sydd heb eu magu yng Nghymru, yn ei gredu. Mae'n siwr taw dyna oedd fy "ffrind" yn meddwl oedd yn digwydd yn Wrecsam flynyddoedd yn ôl. Bois bach, ni'n gorfod ymladd

yr un hen frwydre drosodd a throsodd. Mae gen i gymydog o Loeger ac mae ei agwedd at yr iaith yn iachus chware teg. Ond dwi'n credu ei fod e hyd yn oed yn ei chael yn anodd coelio'n iawn taw'r Gymraeg yw fy mamiaith. "I'd love to be able to speak it fluently, you're lucky – you're taught it in school" meddai. Esboniais taw nid yn yr ysgol ddysgais i hi ond mai hon yw fy iaith o'r crud. Edrychodd arna i â rhyw olwg bell arno fe, doedd yr hyn ddwedais i ddim fel se fe wedi *registro* gyda fe rywffordd.

Serch hynny, gobeithio taw agwedd debycach i fy nghymydog sydd gan y rhan fwyaf o'r bobol sy'n mewnfudo i'n plith, ac nid y boi bach gafodd amser mor 'anodd' yn Wrecsam.

Aled Eynon

O ddiddordeb gobeithio !!!

gan John Arfon

Wrth sylwi ar fy enw y dydd o'r blaen, synnais o weld cymaint o Gymry enwog sydd yn berchen yr un lythyren sydd ar y dechrau yn eu henwau cyntaf ac hefyd ei cyfenwau.

Dyma rai ohonynt, bydd eraill gwahanol y mis nesaf.

Charlotte Church - Cantores • Dai Davies - Golgeidwad

Denzil Davies - Gwleidydd • Ellis Evans (Heddwyn) - Bardd

Ffred Ffrancis - Cymro i'r carn • Gareth Glyn - Cyfansoddwr

Geraint Griffiths - Canwr • Howel Harris - Efengylwr Methodistiaidd

Waldo Williams - Bardd • Jade Jones - Taekwondo

Rachel Roberts - Actores • William Williams - Emynwyr

ELUSEN NYRSYS MACMILLAN

Diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r elusen Nyrsys Macmillan ar gyfer 2021. Nid oedd yn bosib trefnu bore coffi yn Neu-add Llandysilio ond fe gasglwyd £435 yn ardal Llandysilio a'r cylch a derbyniwyd cyfraniad pellach o £200 oddi wrth Fferyllfa Clunderwen.

Diolch i Anna Williams am drefnu.



Adrian Llewellyn Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎ 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANEG HENDYGWYN AR DAF CYF. (WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU • ADEILADU • WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorrlewin
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



MERCHED Y WAWR

Cangen San Cler



Diolch i Margaret Rees a Rhian Williams am addurno coeden Nadolig i gynrychioli'r Gangen yng Ngŵyl Goed Nadolig Eglwys y Santes Fair Magdalen. Roedd y goeden yn dathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r Gangen yn 1971 ac yn edrych yn hardd iawn.

Eirian Davies a Dewi Pws ond i enwi rhai. Daeth ei haraith nôl a tipyn o atgofion i'r aelodau a mawr fu y gwerthfawrogiad o'r hyn rydym wedi ei gael. Diolchwyd iddi am rannu ei phrofiadau ac am godi ysbryd pawb.

Dymuniadau da i Rhoswen Llewellyn bydd yn dathlu ei phenblwydd ar 26ain Chwefror. Nid yw wedi cael iechyd da ers tipyn bellach ac rydym fel Cangen yn colli ei chwmmi yn fawr. Rydym hefyd yn meddwl am Roy sydd yn rhoi bob gofal iddi.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghaffi Beca ar ddydd Iau, 24ain Chwefror am 10'r gloch pan fyddwn yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant Dewi. Edrychwn ymlaen i gael cymdeithasu unwaith yn rhagor.

Cangen Gronw



Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Mrs Margarette Hughes

Hyfryd oedd cael dathlu y Nadolig yng Ngwesty Nantaffin ar brynhawn dydd Iau yr 2il o Ragfyr. Mwynhawyd pryd o fwyd blasus iawn a diolch i staff Nantaffin am y croeso a'r wledd. Ein gwetai oedd Margarette Hughes a braint oedd i Meinir Eynon ei chroesawu i siarad. Mae Margarette yn adnabyddus nid yn unig yn ein cymuned ond drwy Gymru gyfan. Bu yn ein diddori drwy sôn am ei hatgofion o'r Nadolig gan ganolbwyntio ar bethau i ni yn cysylltu â'r Wyl - coed bythwyrdd, cynau tân, anrhegion, Siôn Corn, gwledd a phlant. Gwnaeth ddyfynu tipyn o farddoniaeth yn gysylltiedig â'r Nadolig, gwaith beirdd fel Dic Jones, Waldo,

Cangen Hendygwyn

Pleser llwyr oedd cwrdd yng Nghanolfan Hywel Dda i ddathlu'r Nadolig gyda'n gilydd eleni. Roedd y Ganolfan wedi ei haddurno'n hardd ac fe gasglodd ugain ohonom yn y prynhawn i fwynhau bwffe arbennig a baratowyd gan Christine James a gwin cynnes Nadoligaidd a baratowyd gan Jean Parri Roberts. Gan nad oedd hawl ganddom i ganu carolau, fe ddaeth Ann James a chwaraewr C.D. i chwarae carolau i ni.

Croesawodd Margarette Pethau Olyv o Sancler ac fe gawsom gyfle i wario ar anrhegion hyfryd funud ola' ar y stondin. Tynnwyd y cracers a bu llawer o chwerthin a sgwrsio cyn i'r sachau Santa Dirgel ymddangos. Siarswyd pawb i beidio agor ei anrheg tan fore'r Nadolig.

Er fod Cymraes yn bygwth ein gadael i fynd i fyw i Gaerdydd, rydym yn dal i geisio ei pherswadio i aros yn yr Hendygwyn, ond fe ddymunwyd yn dda iddi yn ei chartre newydd yn y brifddinas.

Penderfynwyd gohirio cyfarfod mis Ionawr, oherwydd yr Omicron, tan fis Chwefror, pan fydd Hazel Thomas, Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro, yn siarad am ei phrofiadau fel cogydd yn y Dorchester yn Llundain.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i GWMNI

SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217



Aelodau Merched y Wawr Hendygywyn yn dathlu'r Nadolig yng Nghanolfan Hywel Dda

Cornel Garddio

gan W John Davies, Hendygywyn

Rwy'n eistedd i lawr ar fore 7fed o Ionawr, bore gwlyb ac oeraidd ac ambell fflach o eira - anaddas felly i wneud dim tu allan i'r tŷ. Mae un garddwr wedi cysylltu â mi, gan ei fod yn gofidio oherwydd iddo sylwi fod ei dato o'r ardd a tipyn o sgab ar y croen. Yr oedd yn synnu braidd, gan fod hyn ddim wedi bodoli ond hyd at yn ddiweddar. Mae hyn yn dweud wrthyf mai prinder calch sydd ar wraidd y broblem tro hyn, ond hefyd mae gormod o galch yn gallu creu sgab ar groen tato. Mae mis Ionawr yn amser delfrydol i ychwanegu calch i bridd yr ardd, oherwydd ei fod yn dueddol o losgi popeth sydd yn tyfu. Mae hefyd yn lladd y mwydon a phopeth arall byw fel y miloedd o facteria ac yn y blaen sydd ym phridd ein gerddi. Yn Ionawr a'r tywydd yn oer, mae'r mwydon ac yn y blaen wedi symud lawr mwy dwfwn i'r pridd i osgoi'r oerfel, ac hefyd yn saff o'r calch ffres.


I fod yn weddol gywir, gwell yw prynu offer mewn canolfan arddio i brofi'r pridd a phrofi yn ofalus yn ôl y cyfarwyddiadau ar y pecyn. Mae hwn yn egluro fod calch yn cael eu fesur mewn graddiau o 1 i 10, sef prawf PH. (Power of Hydrogen). Mae o dan 5.0 ar y scale yn sur iawn, a 5.5 yn ddelfrydol i dyfu tato, ac yna mae rhan fwyaf o'r hadau mân yn hoffi 6.0 i 6.5. Fel arfer mae na siart yn dod yn y pecyn i esbonio'r hyn oll i chi, e.e. faint o galch y dylech ychwanegu. Yn ddelfrydol, ni ddylech ychwanegu mwy na hanner tunnell yr acer ar y tro, ac mae hyn yn gweithio allan rhyw lawn dwrn o galch i pob llathed sgwar o dir. Os yw'r prawf cyntaf yn dangos fod eisiau mwy, gwell aros ac ychwanegu

mwy mewn tua chwe mis. Mae hyn am resymau gofalu am iechyd amgylchedd y pridd, ac hefyd ein iechyd ninnau a phob creadur arall. Mae'n debyg bod ein gerddi yn gymorth llesol i wella ansawdd yr aer yr ydym yn eu anadlu. Mae hyn yn destun llosg erbyn heddiw, a mae'r gwyddonwyr blaenllaw yn dweud fod hyd yn oed planhigion bychain yn ein tai yn gwella ansawdd yr awyr yn ein ystafelloedd. Os felly, mae'n dda gweld pobl mawr pwysig y byd yma yn dechrau sylweddoli fod rhaid lleihau'r llygredd gwenynllwyd sydd erbyn heddiw yn gyffredin. Maent hefyd yn gobeithio cael pob unigolyn i blannu coeden fach addas i helpu'r achos.

Rwy'n cael ar ddeall fod grant o £5000 ar gael i bob pentref gwledig, os oes ganddynt ddarn o dir addas i ddatblygu gardd gymuedol. Fe gewch fwy o fanylion ar safle we.gs.org.uk/cga. application. *John Davies, Hendygywyn*

Colofn Llên

YN FYW YN Y COF gan John Roberts



Mae'r llyfr yn adrodd hanes tair cenhedlaeth o'r un teulu sy'n byw mewn ffermydd bach a thyddynod yn yr un ardal – nofel am gefn gwlad, am golli a dal gafael, am gariad a dialedd.

Y prif gymeriad yn eu mysg yw Anti Glad,

Tyddyn Bach. Mae'i nai, Iorwerth Jones yn athro hanes, ond yn penderfynu gadael ei swydd a symud gyda'i wraig, Margaret a'u merch, Bethan, i ffermio ar ôl marwolaeth eu modryb – gwaith di-brofiad iddynt. Ceir gwahanol gyfnodau o fywyd pob cymeriad yn y llyfr a disgrifiad manwl o ddirywiad meddwl Iorwerth a'r broblem o ofalu amdano, yn enwedig tua diwedd y nofel pan fu raid iddo symud i Gaerdydd i fyw at ei ferch.

Gwasg y Lolfa; Pris £8.99

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelldre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

PWLL TRAP

Llongyfarchiadau i Alys Williams ar ei dyweddian â Tom Bryant.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mary Bowen, Lon Las. Cydymdeimlwn â Yvonne a Gareth Ford a'r teulu oll yn eu colled.

Llongyfarchiadau i Rachel a Phil Morgan ar enedigaeth mab, Griff Wil, brawd bach i Dion, wŷr bach i Eiryth a John Holdcroft a gor-wŷr arall i Mary Williams. Pob dymuniad da hefyd, i Mary Williams a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 97 oed ar Ionawr 3ydd.

Bethlehem Newydd

Cafwyd cyfres o oedfaon hyfryd yn ystod cyfnod yr Adfent wedi eu paratoi gan Marian a chyda'r aelodau yn cymryd rhan. Paratowyd torch yr Adfent gan Annalyn a chynnwyd kannwyll ym mhob oedfa. Braff oedd cael croesawu'r ieuencid adref o'r colegau i'r gwasanaeth cyn y Nadolig ac am eu cyfraniad i'r oedfa. Gwasanaethwyd ar yr organ a'r piano gan Hilary, David, Daniel a Hefina a diolch hefyd i'r rhai a fu'n addurno'r capel. Mae'r offer technolegol eisoes wedi ei osod yn y capel a braff oedd cael defnyddio'r sgriniau i ategu at yr addoliad.

Yn anffodus oherwydd y sefyllfa gyda Covid, ni chynhelir oedfaon yn yr ofalaeth ym mis Ionawr. Gobeithir cynnal oedfa Gymun ar y Sul cyntaf o Chwefror, bydd y sefyllfa'n cael ei monitro yn wythnosol.

Mae Dilwyn Thomas, Rhydygors. wedi derbyn triniaeth yn dilyn cwmp a braff deall ei fod ar wellhad. Dymunir yn dda iddo.

Mae Sally Davies a Dewi Griffiths wedi derbyn triniaeth ar eu llygaid a braff yw deall ei fod yn llwyddiant gyda'r ddau.

Mae Les Evans a Margaret Williams yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod mis Ionawr. Dymunwn benblwydd hapus i'r ddau.

Trefnodd Annalyn gasgliad tuag at Fanc Bwyd Hendygywyn yn ystod mis Tachwedd. Diolch i bawb a gyfranodd at y casgliad ac i Annalyn, Rhodri a Marian am fynd a'r nwyddau i'r Banc Bwyd. Wrth drosglwyddo'r nwyddau deallwyd fod prinder o

bowdwr golchi a nwyddau ymolchi yn y Banc Bwyd a gwnaed casgliad ychwanegol o'r nwyddau yma.



Diolch am gyfrannu at yr elusen leol hon sy'n haeddu cefnogaeth.

Tŷ Croeso



Yn arwain i fyny at y Nadolig, casglwyd nwyddau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Hendygywyn gan mai dyna'r Banc Bwyd sy'n darparu ar gyfer San Clêr, Hendygywyn, Bancyfelin a'r pentrefi cyfagos. Casglwyd yng ngofalaeth Bethlehem Newydd a Gibeon Bancyfelin drwy gydol mis Tachwedd ac roedd yr ymateb yn arbennig o dda. Diolch i bawb a gyfranodd mor hael. Daeth £115 i law hefyd a mawr oedd diolch y gwirfoddolwyr yn y Banc Bwyd.

Ar ôl trosglwyddo'r nwyddau i'r Banc Bwyd, gwelwyd bod angen powdwr golchi yno felly gwnaethpwyd casgliad ychwanegol gyda siop Bancyfelin yn cyfrannu yn ogystal â Pethau Olyv yn Sanclêr. (gweler y llun)

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
 Cyfrifwyr Siartedig
 Hendygywyn
 01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

Ysgubor
 Bryncaerau
 Llety clyd
 Sanclêr
 07870
 100831

CBS
 CRYMYCH
 ADNODDAU ADEILADU
 Uned 7A, Parc Gwynfryn,
 Crymych. SA41 3RQ
 Ffôn: 01239 831444

Roedd cyfnod y Nadolig yn amser prysur iawn i'r Banc Bwyd. Paratowyd parseli bwyd ar gyfer brecwast, cinio a swper a byrbrydiau ar gyfer 7 diwrnod. O Rhagfyr 21ain ymlaen, gwelwyd cynnydd sylweddol yn rhif y trigolion o San Clêr, Hendygywyn a'r ardaloedd o gwmpas, oedd mewn angen ac yn pwyso ar y Banc Bwyd am gymorth. Y diwrnod hwnnw yn unig, anfonwyd allan 399 o brydiau bwyd.

Paratowyd cinio Nadolig ar ddydd Nadolig gan wirfoddolwyr drwy gymorth ariannol y Loteri Cenedlaethol. Daeth 35 o bobl ynghyd i Neuadd y Dref yn Hendygywyn ar y dydd ac fe ddosbarthwyd i gartrefi. Darparwyd cynhwysion i wneud cinio Nadolig i ddau deulu mawr fel eu bod yn medru coganio'r bwyd yn eu cartrefi.

Meddai cynrychiolydd o'r Banc Bwyd- "ni fyddem yn medru darparu'r wasanaeth yma oni bai am garedigrwydd pobl yn ein cymunedau." Ond yn bendant, ni fyddai dim yn bosibl oni bai am frawdgarwch y gwirfoddolwyr.

RHYDYCEISIAID

Priodas. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mr Llŷr Lloyd a Miss Elin Griffiths ar achlysur eu priodas yng Nghapel Rhydyceisiaid ar ddydd Gwener, Rhagfyr 31ain. Gwasanaethwyd gan y Parchg Guto Llywelyn a diolch iddo.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'n hymwelwyr ffyddlon, sef Mr Neville Griffiths, Miss Angela Griffiths, a Mrs Elinor Sutton, ar farwolaeth brawd sef Mr Dai Griffiths o Aberdaugleddau.

.....hefyd a'r perthnasau eraill - Trefor Griffiths, Ronnie a Mair Morgan a'r teulu, Eifion a Violet Griffiths; Dewi Griffiths a'r teulu - roedd Dai Griffiths yn nai iddynt.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Neville Griffiths sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Treforys.

Diolch i holl swyddogion, gohebwy, cyfranwyr a phawb sy'n gysylltiedig â'r Cardi Bach am eu gwaith arbennig yn sicrhau bod y papur bro yn cyrraedd ein haelwydydd bob mis – mae'n bapur diddorol iawn.

BLAENWAUN

Moriah

Rydym fel Eglwys wedi penderfynu canslo oedfaon mis Ionawr yn y capel. Byddwn yn ail edrych ar y sefyllfa ddiweddd y mis gan obeithio y bydd hi yn fwy diogel i gynnal oedfa yn y Capel. Hyfryd oedd cael ymuno â Bryn Iwan mewn oedfa rithiol ar brynawn Sul, 9fed Ionawr am 3.30yp o dan arweiniad ein gweinidog Gareth Ioan. Thema'r oedfa, gan ein bod ar ddechrau blwyddyn newydd, oedd agweddau o'n ffydd sydd yn gyson â dechreuadau newydd. Cyfrannodd nifer o aelodau Bryn Iwan at y gwasanaeth drwy ddarllen o'r ysgrythur, barddoniaeth a gweddïau. Cyfle i adnewyddu ein ffydd, cyfle i wneud yn well.

Cynhelir oedfa ar brynawn Sul, 13eg Chwefror am 3yp. gyda ein gweinidog Gareth Ioan yn gwasanaethu. Edrychwn ymalaen at oedfa yn y Capel.

CWMBACH

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Tom Morris gynt o Pantymaen ond yn awr o Gartref Garreglwyd, San Clêr ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Chwefror 8fed.

LLANGLYDWEN

Dymuniadau gorau i bawb ar ddechrau blwyddyn newydd arall.

Cyn y Nadolig, daeth nifer o'r trigolion at eu gilydd i gynnu goleuni'r pentref. Dyma arferiad sydd wedi dod yn weithred blynyddol bellach sef troi goleuni ein cartrefi ymlaen ar yr un noson a mynd o dŷ i dŷ i wneud hynny. Cafwyd noson hyfryd a braf oedd croesawu nifer o'r trigolion newydd â ymunodd â ni.

Cydymdeimlad

Estynnir ein cydymdeimlad â Jill ac Eurfyl a'r teulu yn dilyn marwolaeth sydyn eu brawd yng nghyfraith sef Derrick Rees, Pentregaral.

Penblwydd

Pob dymuniad da a phenblwydd hapus iawn i Pat, Ger y Conwydd a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 80 ar ddechrau'r mis.



Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE



Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr



ALLPUMP SERVICES

ARBENIGWYR MEWN PWMPs FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŌR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd Ffôn: 01994 448310
Llangynin Ffacs: 01994 448693
San Clêr
SA33 4LD e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED



FFÔN:-
01994 240857



LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Wyn Morris, Mr Nigel Davies a Mr Tudur Dylan Jones am eu gwasanaeth dros y Sulie dwetha, gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn.

Cwrdd Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd yng Nghalfaria ar fore Sul, Rhagfyr 19eg, gydag aelodau a ffrindiau y capel yn cymryd rhan. Teimlwyd gwefr yr ŵyl wrth ganu carolau, gyda Mefin Lewis, Delyth Morris a Les Owen yn eu cyhoeddi. Cafwyd darlenniadau o'r Beibl gan Faith Wright, Beti James, Gareth Griffiths, Meinir Eynon a Sian Davies, ac fe'n tywyswyd mewn gweddïau gan Nigel Vaughan a Ceirios Jenner. Adroddodd Edryd Eynon, Nigel, Faith a Ceirios gerddi o eiddo W Rhys Nicholas, Wyn Owens, T Llew Jones a Mererid Hopwood. Perfformiodd Beti a Sian gân wreiddiol swynol, a gwrandawyd ar aelodau eraill yn canu dwy gân hefyd. Diolchodd Faith i bawb am gymryd rhan, a dymunodd Nadolig dedwydd i bawb, gan gofio am yr aelodau a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch a henaint.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Chwefror 6ed - Catrin Thomas - Cymun am 2

20fed - I'w gadarnhau

Mawrth 6ed - Annalyn Davies - Cymun am 10.30

20fed - Peter Thomas - Cwrdd am 2

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Laurence Jones ar farwolaeth ei wraig Gwen (Glanrhyd gynt) yn ddiweddar.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Betty ac Einir Evans, Eifion Griffiths a Dafydd Wright. Da deall bod Iris Morris, Talar Wen adref o'r ysbyty erbyn hyn.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Edryd Eynon, ar ei apwyntiad yn bennaeth ar ysgolion Brynconin a Maenclochog. Dechreuodd ar ei swydd newydd ar ddechrau mis Ionawr a dymunwn pob llwyddiant iddo.

LLANBOIDY

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Fanw Thomas, Brynderwen ar gyrraedd ei phenblwydd yn 80 yn ddiweddar.

Trinity

Cynhaliwyd oedfa gymun ar y 5ed o Ragfyr, gyda'r gweinidog y Parchedig Guto Llywelyn yn gwasanaethu. Hyfryd oedd cael cwmni Meredydd Richards yn yr oedfa.

Sefydliad y Merched

Daeth yr aelodau ynghyd ar Ragfyr 16eg yn Neuadd y Farchnad o dan lywyddiaeth y llywydd Denise Harris. Ar ôl trafod busnes, croesawodd bawb i fwynhau cinio Nadoligaidd wedi ei baratoi mewn blwch i bob aelod gan y Coffee Lounge yn Hendygywyn. Enillydd y gystadleuaeth Het Nadolig oedd Gwen Collard a Jayne Evans, Dyffryn Brodyn yn ail.

Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn â Fred Scourfield a'r teulu ar ôl iddo golli ei wraig Dilys, y ddau wedi ymddeol o ffermio i fyw yn y pentref.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

Pum Cenhedlaeth



Dyma lun a dynnwyd dros y Nadolig o 5 cenhedlaeth o deulu Sammy Thomas, Brynderwen, Llanboidy. Yn y llun mae Sammy, ei ferch Diane Brown, Pwll Trap; ei wyres, Marie Lillington o Gynwyl Elfed; ei or-ŵyr Jayden Carter o Mynachlogddu ai or-or wyres fach Amber (merch Jayden ac Emma).

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007



cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab

Glandy Cross

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



BANCYFELIN

Cana



Cynhaliwyd oedfa Nadolig Capel Cana, Bancyfelin brynhawn Sul, 12fed Rhagfyr. Gwnaeth y plant eu gwaith yn arddrechog, ac yn dilyn ymweliad blynyddol gan Sion Corn, mwynhawyd te parti braf. Prynhawn hapus iawn.

Capel Bancyfelin - cydnabod gwasanaeth



Yn yr oedfa Nadolig ar 19eg Rhagfyr, cyflwynwyd rhodd yr un i Carwen Howells, Lyn Jones a Vera Thomas i ddiolch iddynt am 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenoriaid yng Nghapel Bancyfelin. Tymor rhagorol o waith.

Dathlu Nadolig



Daeth nifer dda ynghyd i'r dathliad Nadolig yng nghymuned Bancyfelin ar oedfa dan olau cannyll yn y capel nos Sul, 19eg Rhagfyr. Wedi ymweliad gan Sion Corn, mwynhawyd paned a mins pei yn ein seddau yn y capel tra bod y plant yn mwynhau te parti bach gyda'u gilydd. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson.

Gibeon

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd ar Ragfyr 12fed. Paratowyd yr oedfa, y trydydd yn nhymor yr Adfent, gan Marian a chymerwyd rhan gan yr aelodau. Paratowyd torch Adfent brydferth gan Annalyn a chynnwyd y trydydd cannyll ganddi. Bu rhai o blant yr Ysgol Sul yn cyflwyno darlenniadau a chanu. Braf oedd eu clywed ar ôl cyfnod hir heb wasanaethau. Hilary oedd yn gwasanaethu wrth yr organ. Diolch i bawb a fu'n trefnu ac a gymerodd ran yn yr oedfa ac i Annalyn a Mared am addurno'r capel mor hyfryd.

Yn ystod mis Tachwedd casglwyd nwyddau tuag at Fanc Bwyd Hendygywn. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Cydnabod 32 mlynedd o wasanaeth i Ysbyty Werndale



Dymuniadau gorau i Merle Jones, Lôn Cowin, Bancyfelin ar ei hymddeoliad o Ysbyty Werndale, Bancyfelin ar ôl 32 mlynedd o wasanaeth ffyddlon a chlodwiw. Roedd Merle yn un o'r staff cyntaf pan agorwyd yr ysbyty yn 1990. Yn y llun gwelir Richard Davies, Rheolwr Gweithredoedd a Jacky Jones, Cyfarwyddwr yr ysbyty yn cyflwyno blodau a rhoddion i Merle. Dymuniadau gorau hefyd ar ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Ionawr.

CLUNDERWEN

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Lionel Phillips, Great Molleston Farm, Templeton, gynt o Rhywoga, Clunderwen. Ei dad y diweddar E.R Phillips oedd sylfaenydd Clwb Ffermwyr ifanc Clunderwen, y clwb cyntaf yng Nghymru. Bu'r angladd ym Amlogsgfa Parc Gwyn.

...hefyd â theulu Brynaeron ar golli Dillwyn Roberts, gŵr Mary a thad Phillip, tad yng nghyfraith Emma a dadcu annwyl Jonathan a Mari. Bu'r angladd yn Eglwys, Llandysilio.

...hefyd â theulu Diana Ross, Preseli View, bu'r angladd yn Amlogsgfa Parc Gwyn.

Cyfraniad

Teulu Rhosfach, Efailwen £10
Diolch yn fawr

LLANDYSILIO

Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farwolaeth Dillwyn Roberts, Brynaeron, Llandysilio yn ystod wythnos olaf Rhagfyr 2021. Cydymdeimlwn gyda Mary ei wraig, Phil, Emma, Jono a Mari.

....hefyd cydymdeimlwn gyda theulu Merlys Davies, Awelfa, Llandysilio. Gwraig annwyl Glanville, mam a mam yng nghyfraith Carol a Peter.

....hefyd ag unrhyw un arall sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Graddio

Llongyfarchiadau i Rhodri Davies ar raddio fel Nyrs Iechyd Meddwl Cofrestredig.

Cylch Meithrin Llandysilio

Braf oedd cael cynnal rhai gweithgareddau Nadolig eleni. Ar nos Sadwrn, 4ydd o Rhagfyr, aeth rhai o rieni a staff allan i'r Bush, Robeston Wathen am bryd o fwyd.

Ar fore Llun, 13eg o Rhagfyr aeth plant, rhieni a staff i 'Dyfed Shire Horse Farm'. Cafwyd ymweliad gan Sion Corn.

Cynhaliwyd ein Cyngerdd Stori Nadolig eleni ar nos Fawrth, 14eg Rhagfyr. Bu rhaid cyfyngu ar y rhife, 2 rhiant o bob teulu, a brodyr a chwiorydd ysgol Gynradd. Er hyn codwyd £106, swm teilwng o dan yr amgylchiadau.

Addysg Gymraeg i blant 2-4 oed, yn Neuadd Llandysilio. Bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener. 9.00yb tan 12.00 canol dydd. £8 y sesiwn.

Cylch Ti a Fi Llandysilio

I blant 0-4 oed gyda rhiant/gwarchodwr. Pob bore Mercher 10yb tan 12 canol dydd yn Neuadd Llandysilio. £3 y sesiwn.

Am fwy o fanylion am y Cylch Meithrin a Ti a Fi cyswlltwch â Delyth Roblin ar 07882639867

Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Os hoffech ymuno â cyfarfod Pwyllgor Neuadd Llandysilio, mae croeso mawr i chi. Rydym yn cwrdd ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30yh. Bydd cyfarfod mis Chwefror ar y 14eg.

NEWYDDION BLAENCONIN

CYFARCHION

Boed bendith ar bob un o aelodau'r Eglwys ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd gan ddymuno'n dda i'r cyfeillion hynny sydd yn ein cefnogi a'n cynorthwyo.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae Aled Walters wedi symud tŷ, llwyddo yn ei brawf gyrru a dathlu ei ben-blwydd yn 18 mlwydd oed.

Danfonwn ein dymuniadau gorau i Gloria Gibby a hithau'n gwella yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

MEWN CYDYMDEIMLAD

Cofiwn yn dyner am Eira Phillips a hithau wedi derbyn y newyddion am farwolaeth sydyn ei brawd, John, yn ystod diwrnodau cyntaf y Flwyddyn Newydd. Roedd John yn galw'n gyson gyda'i chwaer.

PEN-BLWYDD HAPUS

Bu Ann Lewis yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar yr 20fed o Ionawr ! Llongyfarchiadau mawr iddi. Wel ! Wel !

GOBAITH ar y GORWEL

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae aelodau'r Eglwys wedi ufuddhau i orchmynion a chanllawiau'r Llywodraeth ac wedi dewis defnyddio synnwyr cyffredin wrth ymateb i her y Coronafeirws. Bellach, mae gobaith ar y gorwel ac, er gwaethaf yr Omicron, mae'r aelodau yn edrych ymlaen at agor drysau mawl a gweddi unwaith eto.

Mae'r trefniadau bellach mewn llaw gyda'r gobaith o ddod ynghyd i ddathlu Atgyfodiad ein Gwaredwr ym mis Ebrill heb fawr o rwysr. Cyn hynny, byddwn yn cadw llygad barcud ar ganllawiau'r Llywodraeth ac yn prysuro ymlaen i baratoi ar gyfer y 'normal newydd'.

Beirdd Blaenconin

'Gobaith ar y Gorwel'

Mae gobaith ar y gorwel
ar ôl y misoedd hir
a golau'r cyfle newydd
i weld dros erwau'r tir ;
bydd drysau mawl ar agor
a llwybr gweddi daer
yn arwain y fforddolion
i gwrdd o gylch y Gair ;
a chlychau'r Plwy' yn galw

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy

Paentiwr ac
Addurnwr
Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
 **Monraker** 
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
 **Tir y Bont** 
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

ar bawb i ddod ynghyd,
ac Iesu yn fuddugol
dros ddiabol, cnawd a byd.
Bydd canu bendigedig
a dybli, threblir gân,
a'r Pulpud eto'n elwa
o nawdd yr Ysbryd Glân.
Bydd 'hwy!' yr hen Bregethwyr
yn amlwg ar y Sul
a phawb yn gwneud eu gorau
i rodio'r llwybyr cul.
Mae gobaith ar y gorwel
a golau Duw ar ddod ;
Dihunwch, bobol Cymru,
Dihunwch - canwn glod !

lon yn Ramoth a chynhaliwyd yr angladd yng Nghapel
Ramoth ar ddydd Iau, Rhagfyr 23ain gyda'r Parch Huw
George yn gwasanaethu.

....hefyd â Roy a Rhoswen Llewellyn ar farwolaeth eu
chwaer yng nghyfraith, sef Nelda Llewellyn.

Gwellhad

Dymunwn wellhad i Roy Reynolds ar ôl iddo treulio
peth amser yn ysbyty Glangwili.

Dymuniadau gorau

Pob dymuniad da i Merle Jones ar ei hymddeoliad ar ôl
32 mlynedd yn gweithio yn ysbyty Werndale, hefyd yn
dathlu penblwydd arbennig ar Ionawr 24ain.

Gŵyl Rhinwedd a Moes

Penderfynwyd, oherwydd sefyllfa y Pandemig, na fydd
yr oedfa yn cael ei chynnal mis Chwefror eleni eto.

NEWYDDION o'r FFYNNON

OEDFAON yn y FFYNNON

Mae'r aelodau wedi dechrau paratoi ar gyfer oedfa
Gymundeb nos Iau Cablyd yn y gobaith o ddod
ynghyd heb rwystrau'r Llywodraeth. Mae'r dyfodol
yn edrych yn addawol ac mae'r aelodau yn ffyddiog
eu bod yn ddoeth i fod yn ofalus am gyfnod eto gan
edrych ymlaen at ganol mis Ebrill.

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Oherwydd Covid 19 bu raid i ni beidio cynnal oedfa
Gymun mis Ionawr.

Cwrdd Nadolig

Ar Sul, Rhagfyr 19eg cafwyd cwrdd Nadolig o dan ly-
wyddiaeth y Parch Huw George. Cymerwyd rhan gan yr
aelodau a nifer o blant.

Oedfaon Mis Chwefror

6ed Hefin Wyn (Gymundeb) - 10.30

13eg Parch Huw George - 2.00

Mae nifer o aelodau yn methu dod i'r oedfaon oherwydd
afiechyd. Dymunwn yn dda iddynt yn ystod eleni.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Haulwen Lewis, Cefnybant House
(gynt o Trefyw) a'r teulu i gyd ar farwolaeth ei phriod
Allen yn ystod Mis Rhagfyr. Roedd Allen yn aelod ffydd-

Penblwydd arbennig

Penblwydd hapus i Merle Jones, 7 Lôn Cowin, Bancy-
felin a oedd yn 70 oed ar Ionawr 24ain. Pob dymuniad
da oddi wrth dy frodyr, chwiorydd a'r teulu oll.

CYMDEITHAS Y BEIBL : Cylch Beca

Yn anffodus ni fu'n	Bethesda, Llawhaden	25.00
bosib cynnal gwasan-	Bethel, Mynachlog-ddu	75.00
aeth Cymdeithas y	Blaenconin	25.00
Beibl yng Nghapel	Calfaria, Login	100.00
Glandwr ar 16eg Ion-	Glandwr	25.00
awr 2022 oherwydd	Hebron	25.00
Cofid 19.	Horeb	20.00
Er hynny, mae capeli'r	Nebo	50.00
cylch wedi gwneud	Pisga, Llandysilio	75.00
eu cyfraniadau a	Rhydwylym	50.00
dyma'r manylion am	CYFANSWM	£470.00
2021:		

EFAILWEN

Ar fore Sul, 19eg Rhagfyr, fe wnaeth Ysgol Sul Nebo gy-
flwyno eu sioe Nadolig yn dwyn y teitl, 'Naws y Nadolig',
ar Zoom i gynulleidfa fechan o rieni, aelodau a ffrindiau'r
capel. Perfformiodd y plant a'r bobl ifanc oedd yn cyn-
nwys: Begw, Iago, Llew, Mabli, Efa, Charlie, Osian, Celt
ac Efan, gasgliad o adroddiadau ac eitemau cerddorol
Nadoligaidd ac ambell sgetsh fach! Ardderchog pawb.

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymlych

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

Diolch

Dymuna Dennis, Jean a theulu'r ddiweddar Rhiannon Jones gynt o Delwydd, Efailwen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cyfraniadau er cof amdani. Codwyd dros £1000 tuag at Gapel Nebo.

Diolch teulu Ianto bach

Diolch o galon i deulu, ffrindiau, cymuned Efailwen ac ymhellach, am bob cymorth a chysur ar ôl colli Ianto bach trwy ddamwain ym mis Awst. Diolch arbennig i'r Parchedig Huw George, Dennis a Jean Jones, Efailwen, Dorian Phillips Llanboidy, Hywel Griffiths a'i feibion Clunderwen, Phillip Walker Llandysilio, Caffi Beca a Siop Glandy Cross. Bydd taith tractorau a cheir yn cael ei gynnal ar y 9fed Ebrill 2022 gydag adloniant lleol ar y noson. Bydd yr arian yn mynd tuag at elusennau lleol. Mwy o fanylion i ddilyn.

Blwyddyn Newydd well i bawb oddi wrth teulu Jenkins, Rhosfach, Efailwen.



Tra'r erys dolur hiraeth
Am Ianto a'i chwerthin iach
Bydd golau'i seren fechan
Yn gwylio dros Rhosfach.

Tecwyn Ifan

Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cyfarfu aelodau Hoelion Wyth Beca, yn ôl ein harfer yng Nghaffi Beca, Efailwen, a hynny ar nos Fercher, Tachwedd 24ain.



Eurfyl Lewis, Tom Evans, Eifion Evans a Ken Thomas

Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Tom Evans, Peniel ac estynodd Eifion Evans, y Cadeirydd, groeso cynnes iddo. Ma Tom wedi cael gyrfa ddiddorol a llwyddianus – bu'n weinidog, gweitho i Gymorth Cristnogol, darlithio yn y Drindod yng Nghaerfyrddin, cynhyrchu rhaglenni crefyddol ar gyfer Radio Cymru ac yn fwy diweddar, yn gwirfoddoli fel caplan gyda Heddlu Dyfed Powys.

Cawsom hanes ei fagwrf a ym mhentre Betws Ble-drws yng Ngheredigion, yn ogystal â'r swyddi am-rywiol roedd wedi eu cyflawni dros y blyneddau. Canolbwyntiodd Tom yn benodol ar y naw mlynedd diwethaf, sef y cyfnod bu'n gwasanaethu fel caplan i'r heddlu. Pwrpas ei rôl fel caplan oedd bod yn gefn i swyddogion yr heddlu ac i'w cynorthwyo drwy gyfnod anodd. Daeth yn amlwg yn fuan iawn, fod Tom wedi cael pleser mawr o weithredu fel caplan, er gwaetha nifer o achosion trist a dirdynol wnaeth effeithio'n fawr ar swyddogion Heddlu Dyfed Powys. Soniodd yn benodol am ddiflaniad April Jones ym Machynlleth, ac am yr effaith ofnadwy cafodd ei llofruddiaeth erchyll, ar aelode'r Llu. Soniodd hefyd am y tân erchyll yn Llangammarch ym Mhowys, gymrodd fywydau tad a 5 o blant. Effeithiodd hyn hefyd yn fawr iawn ar swyddogion yr heddlu a bu galw mawr am wasanaeth Tom i'w cynorthwyo drwy gyfnod anodd tu hwnt.

 **the LONDON HOUSE**
butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 



GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio
a Phensarnol

15 STRYD ST IOAN, HENDYGYWN,
SIR GAERFYRDDIN, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

@GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Diolchodd Eifion, yn ddiffuant i Tom, am noson wirioneddol wych a bu pawb yn cymdeithasu ymhellach wrth fwynhau basned o gawl. Diolch o galon i Robert am yr arlwy ac am ei groeso arferol, gwerthfawrogwn y cyfan yn fawr iawn.

LLANGYNIN

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Howard a Jennifer Evans, Plasbach, sydd wedi dod yn famgu a dadcu unwaith eto. Ganed bachgen bach arall i Sioned a Nick, sef Jayden Knox Perry, brawd bach i Josef. Pob dymuniad da i'r teulu i gyd.



Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Les Evans, Blaenycod, sydd yn dathlu ei ben blwydd yn 80 oed ar Ionawr 24ain. Pen blwydd hapus iawn iddo!

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i William Griffiths, Glasgoed, a Hanna Thomas, Drysgol Goch, Llwyndrain, ar eu dyweddiad a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

Gwellhad buan

Da clywed bod Roy Reynolds, Tymore, wedi dod adref ar ôl treulio

Gwellhad buan

Da clywed bod Roy Reynolds, Tymore, wedi dod adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau iddo am wellhad buan.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn fawr â Rhianon Thomas, Llysoed, ar farwolaeth dwy chwaer yng nghyfraith yn ystod mis Rhagfyr, sef Rachel Anna Thomas, gynt o Gwarallt, Meidrim, ac Iris Martin o Fynyddcerrig. Cofiw'n am y teulu i gyd yn eu colled.

Priodas Dda

Dymuniadau gorau i Llŷr Lloyd ac Elin Lydia Griffiths, Penlan House, ar eu priodas yng Nghapel Rhydyceisiaid ar Ragfyr 31ain. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau - hir oes a phob hapusrwydd!



Ymddeoliad

Llongyfarchiadau i Rosalie Williams, Clawddcam, ar ei hymddeoliad yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddi ar gyfer y dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Rosemarie Davies, Brynhyfryd, sydd wedi

ymddeol (yn rhannol) yn dilyn 45 mlynedd o yrfa fel nyrs theatr yn Ysbyty Glangwili. Amser nawr i fwynhau mwy o deithio a gwyliau!



Medal Gee 'er anrhydedd'



Nigel Davies yn gwisgo'r fedal Gee 'er anrhydedd' a gyflwynwyd iddo am 30 mlynedd o wasanaeth llawn amser.

Llongyfarchiadau gwresog i Nigel Davies, Llain Deg, ar dderbyn Medal Gee 'er anrhydedd' gan Gyngor yr Ysgolion Sul am ei gyfraniad arbennig i waith plant a ieuencid yng Nghymru. Cafodd Nigel ei enwebu i dderbyn medal yn 2020, ond oherwydd Covid, bu'n rhaid gohirio'r cyflwyno tan 2021. Cafodd Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyngor yr Ysgolion Sul, wahoddiad i gartref Nigel ac yno cafodd gyfle i gyflwyno'r fedal iddo. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ti Nigel.


**DAVID HARRIES
& Co**



**CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD**

Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.



**"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"**

**PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH**



01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR

Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb

- Gwasanaeth plymio llawn
- Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
- Gwasanaeth teilio llawn
- Dyfynbris am ddim
- 25 mlynedd o brofiad

07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk 

TEIFION WILLIAMS JOHN

09.04.1939 – 11.10.2021

'Teifion Rhiwe' – dyn ei filltir sgwâr.

Bu farw Teifion John ddydd Llun 11eg Hydref 2021 yn 82 oed. Ganed Teifion yn Dolbetws, Llanycefn, ond yn Rhiwe gafodd ei fagu. Yr hynaf o bump o blant i Edwin ac Ann John, fe gymerodd y pwysau a'r dyletswydd o fod yn gymorth i'w fam, a brawd mawr i'w chwiorydd a'i frawd bach, ar ôl colli ei dad yn ddisymwth ofnadwy pan ond yn 14 oed. I Ysgol Nantycwm aeth

Teifion a wedyn i Ysgol Ramadeg Arberth, ond gorfodwyd iddo orffen ei addysg yn syth i helpu rhedeg y fferm. Magwyd ef dan adenydd ei fam, ac addawyd iddi hi mi fydder aros yn agos i'r ffarm a dysgu'r traddodiadau deuluol. Roedd e'n ddyn cydwybodol a deallus, yn deall y pethe oedd yn bwysig iddo fe a'r teulu yn cynnwys moduron, peiriannau, pethau trydanol a magu anifeiliaid.

Yn Rhiwe roedd e'n godro, a nôl a mlan i Dolbetws at ei fam a'i ddatcu oedd â gofal mawr ohono a'r teulu. Roedd ganddo feddwl mawr o 'Datcu Dolbetws' (Stephen Williams), ei hanes a'i wreiddau. Roedd e'n browd iawn o'r teulu a fu, ac yn aml fydder stori "Cafodd dau 'Professor' eu geni yn Dolbetws". Balch iawn oedd e o'i deulu, am beth ma'r plant a'r gorwyrion wedi cyflawni, ac wrth ei fodd yn gweld nhw'n dod mlan yn y byd. Roedd Teifion yn falch o'i enw canol 'Williams', enw teuluol ochr ei fam wrth gwrs, a bu rhaid i Teifion atgoffa unrhyw un roedd wedi anghofio'r 's' ar ddiwedd Williams, er mwyn sicrhau bod enw'r teulu yn aros yn fyw yn y côf.

Yn ei ugeiniau cynnar, cyfarfu â merch ifanc o Rosebush (Tŷ Grug) ac erbyn roedd e'n 24, fe briododd Beryl John yng Nghapel Tabernacl, Maenclochog. A dyna ddechre ar fywyd priodasaol, a magu teulu o 4 o blant – Geraint, Meinir, Emyr a Nerys – ac erbyn hyn roedd ganddo 7 o wyrion ac wyresau a 2 gor-wyr, ac yn fwy na hyn buodd yn briod ac yn ŵr ffyddlon, tyner a gofalus o Beryl am dros 57 a hanner o flynyddoedd, wedi dathlu priodas Emrallt ond cwpwl o flynyddoedd yn ôl ac yntai'n troi'n 80 ar yr un adeg.

Penderfynodd y teulu symud o Rhiwe i tŷ Dolbetws yn 1981 a pharhau i ffermio'r ddwy fferm. Buodd Teifion yn gyrru lori Ioan Williams, Maenclochog, a dros y blynyddoedd hynny, gwelwyd Teifion yn casglu da byw o ffermydd lleol a mynd â nhw i Mart Aberteifi, Caerfyrddin a Hwlfordd. Bu hefyd yn gyrru bws gyda 'Jones o Login', rhywbeth oedd ei fam hefyd yn gwneud ar y pryd. Yn gyn-aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen, roedd Teifion yn aelod blaengar o Undeb Amaethwyr Cymru yn Sir Benfro, ar fwrdd Amaethwyr Clunderwen a Cheredigion (CCF), roedd yn Gynghorwr Cymuned ym Maenclochog, Cadeirydd Neuadd Maenclochog ac ar y Bwrdd Rheoli gyda PLANED yn Arberth. Roedd e'n ddiagon yn Eglwys Rhydwylym a buodd yn Arweinydd y Gân am gyfnod. Bu'n aelod o Hoelion Wyth Beca, yn cyfarfod yn rheolaidd yng Nghaffi Beca, cyfle arall i gwrdd â'i ffrindiau a chymdeithasu. Fe gafodd fywyd llawn a prysur ond roedd wastad amser gyda fe i'w deulu, yn mynd â'r plant i ymarferion piano a gitâr, Aelwyd yr Urdd, chwareuon a digwyddiadau cymunedol.

Dros y blynyddoedd diwethaf nid oedd iechyd wedi bod ar ei ochr, a hynny yn amlwg i'r sawl oedd yn ei nabod. Yn wir, yn 2016 buodd e'n eitha sâl pan gafodd ddiagnosis 'Chronic Lymphocytic Leukaemia' ac roedd hynny wedi effeithio tipyn ar ei ffordd o fyw dros y blynyddoedd dwetha. Y siom fwy oedd methu mynd i ddigwyddiadau a chefnogi'r gymuned fel y dymuna. Roedd ei galon wastad wedi bod ar fferm Dolbetws – fan 'na gafodd ei eni a dyna lle'r oedd am adael y byd yma, dyna oedd ei ddymuniad a doedd neb yn mynd i newid ei feddwl. Ar ddydd Gwener 22ain Hydref, fe aeth ar ei siwrne olaf drwy ei gymuned a oedd yn agos iawn i'w galon, drwy Maenclochog a Llanycefn, heibio Rhiwe a wedyn i glôs Dolbetws am y tro olaf lle cafwyd gwasanaeth breifat gyda'r teulu, wedyn heibio Ysgol Nantycwm cyn cyrraedd mynwent Capel Rhydwylym lle cafwyd gwasanaeth cyhoeddus.

Hoffai Beryl a'r teulu mynegi eu diolch diffuant am yr holl negeseuon o gydymdeimlad a chefnogaeth yn ystod eu galar. Diolch yn arbennig i Dennis a Jean Jones am drefnu'r angladd, i'r Parch. Ken Thomas a'r Parch. Huw George am wasanaethu'r angladd ac i aelodau a ffrindiau Eglwys Rhydwylym am eu gwaith yn y fynwent. Diolch hefyd i bawb am y rhoddion tuag at y ddwy elusen, codwyd £600 at 'Ward Chemotherapy Ysbyty Llwynhelig' ac 'Ymchwil Leukaemia Cymru'.

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

**CLOTH HALL
LLANBOIDY**

Ffôn: 01994 448364 / 448221

**Adelladwyr
DORIAN PHILLIPS**

**Crefftwyr o bob math yn y diwydiant
adeiladu o hen i newydd**

**Arbennigwyr mewn ail wneud
Capeli, Eglwysi ac Ysguborau**

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywyn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

**dp MASNACHWYR
ADEILADU**

**Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm
A Llawer Mwy!**

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

RHYDWILYM

Tawel yw hi wedi bod yn y Cwm dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae'r Cofid wedi ymweld â rhai cartrefi yr ardal. Gwellhad llwyr i bawb.

Ychydig cyn y Nadolig cynhaliwyd angladd y brawd Eric George ar y fynwent yn unig. Cydymdeimlwn gyda'i deulu a'i ffrindiau.

Yr ydym yn cofio am Allen Lewis, Tirbach, Llanycefn gynt. Un o blant Rhydwilym oedd e, ac yn frawd i Dennis, John ac Angie.

Yr ydym yn cydymdeimlo gyda hwythau a'r teulu i gyd, ac a phawb sydd wedi colli anwyliaid.

Ar y Sul cyn y Nadolig cynhaliwyd gwasaneth Nadoligaidd yn y Capel. Yr aelodau oedd yn gyfrifol. Gobeithiwn gyfarfod eto yn fuan. Siom oedd gorffod cau ar Sul cyntaf 2022.

Suliau

Ionawr 23ain: 2.00 - Hefin Wyn

Chwefror 6ed: 10.30 Cymun - Catrin Isaac Thomas

Mawrth 6ed: 2.00 Cymun - Annalyn Davies

Mawrth 20fed 10.30 Parch P. M. Thomas

Ni fydd Gŵyl Rhinwedd a Moes yn cael ei chynnal eleni eto.

Pob bendith i bawb yn 2022.

TRELECH

Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion yr ardal.

Gwellhad buan i Mrs Rhiannon Thomas, Madox sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau mawr i Elin a Tomos, Rhydygors ar enedigath eu mab, Osian. Wyr bach i Glyn a Myrtle Davies, Llety Clyd, Trelech ac Alan a Stella Jones, Pen-boyr.

Capel y Graig

Cynhaliwyd oedfa yng ngofal yr aelodau ar Sul cyntaf yr Adfent, sef y 28ain o Dachwedd gyda phwyslais ar Iesu, Goleuni'r Byd. Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan ac i Eirlys Phillips am gyfeilio.

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol hefyd yn ystod mis Rhagfyr gyda'r Ysgol Sul a'r bobol ifanc yn cymryd at yr

oedfa ar bawn Sul, 12fed o Ragfyr. Cafwyd cyflwyniad rhagorol gan y plant a'r bobol ifanc yn cynnwys hanes y Geni ar ffurf drama, darlenniadau a chaneuon. Yna ar ddiwedd yr oedfa, cafwyd ymweliad gan ŵr pwysig iawn, sef Siôn Corn. Diolch i blant yr Ysgol Sul a'r athrawon sef Eirlys Phillips ac Eleri Rees, y bobol ifanc a'r cyfeillyddion Eirlys Phillips a Carys Williams am eu cyfraniadau gwyh.



Plant yr Ysgol Sul a'r bobol ifanc fu'n cymryd rhan

Ar Sul, 19eg o Ragfyr, cafwyd oedfa gymun fendithiol a theimladwy gyda'r Parchg Robin Samuel yn gwasanaethu a Buddug James Rees yn cyfeilio. Cafwyd cyfle wrth fwrdd y cymun, i gofio am aelodau a gollwyd ers dechrau'r pandemig ac i gydymdeimlo gyda'u teuluoedd a oedd yn bresennol yn yr oedfa. Coffa da am Mr Owen Thomas, Mrs Bronwen James, Mr Frank Barnett, Mrs Rosamond (Rosa) Evans, a Mrs Marianne Evans. Cydymdeimlwyd hefyd ag aelodau eraill oedd wedi colli anwyliaid.

Ar Noswyl y Nadolig, cynhaliwyd gwasanaeth Plygain ar Zoom am 11.30 yng ngofal aelodau capeli'r ofalaeth. Diolch i Lily May Thomas a Linda Davies, Penybont; Gaynor Lewis, Capel Cendy; Hevina ac Arwyn Jones, Ffynnonbedr; Rhian Lawrence, David a Caroline Harries, Eirlys ac Anwen Phillips, a Jean a Gwawr Lewis, Capel y Graig am gymryd rhan a diolch hefyd i bawb wnaeth ymuno â'r gwasanaeth.

Diolch yn fawr i Alun a Linda Davies am y goeden Nadolig tu allan i'r capel, i Steffan Harries am ei rhoi yn ei lle ac i Eifion a Menna Jones am addurno'r capel mor hyfryd.

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7 -12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan

ECA CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robcmd28@gmail.com

ARWYDDION A DYLUUNIO

BOOMERANG
SIGN & DESIGN

01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Lily May Thomas, Penybont, am gael ei anrhydeddu gyda Medal Gee mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Penybont ar y 19eg o Ragfyr gan y Parchg Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul. Cyflwynwyd y Fedal iddi am ei chyfraniad mawr i Ysgol Sul Penybont am dros hanner cant o flynyddoedd. Dy-muniadau gorau iddi i'r dyfodol.

PENYBONT

Braf oedd bod nôl yng Nghapel Penybont ddydd Sul, 19eg Rhagfyr ar gyfer gwasanaeth Nadolig yng ngofal y bobl ifanc. Cafwyd oedfa hyfryd yn clywed hanes plant yr Hen Destament a phlentyn y Testament Newydd.

Yn draddodiadol, Siôn Corn sydd yn ymweld â'r Capel ar ddiwedd oedfa Nadolig, ond ymweliad ychydig yn wahanol oedd ym Mhenybont mis Rhagfyr. Croesawyd y Parchedig Aled Davies o Gyngor Ysgolion Sul i'n plith, er mwyn cyflwyno Medal Gee i un arbennig iawn, sef Lily May Thomas.



Y Parchg Aled Davies yn cyflwyno'r Fedal Gee i Lily May Thomas

Cyflwynir Medal Gee gan Gyngor Ysgolion Sul i'r rhai sydd wedi rhoi cyfraniad arbennig i waith yr Ysgol Sul. Mae Lily yn llawn haeddu'r fedal hon am ei hymroddiad i'r Ysgol Sul ac am ei dysgeidiaeth a'i harweiniad i blant a phobl ifanc yr ardal ers dros 50 o flynyddoedd.

Cafodd Lily ei geni a'i magu ym Mlaenycoed, ac roedd yn ffyddlon i'r ysgol Sul a'r Capel ym Mlaenycoed ers yn 4 blwydd oed. Ar ôl cyfarfod â Sam a phriodi, daeth yn aelod yng Nghapel Penybont a hynny pan oedd yn 19 mlwydd oed.

Yn fuan wedyn, daeth Lily yn athrawes Ysgol Sul. Golyga hynny bod yr Ysgol Sul wedi bod yn rhan annatod o'i bywyd ers tua 80 mlynedd, a'i bod wedi rhoi dros 50 mlynedd o wasanaeth yn dysgu yn yr Ysgol Sul ym Mhenybont.

Mae ganddi ddawn arbennig i ysgrifennu sgriptiau ar bob math o destunau, ac yn aml, bydd yn cynnwys drama fer neu sgetsh fach. Er yr un yw'r neges neu'r stori o'r Beibl, mae'n medru cyfleu'r stori o ongl wahanol ac mewn ffordd ysgafn a chyfoes. Mae pob sgript yn cael ei llunio o'r newydd ac mae Lily yn cael boddhad mawr wrth baratoi'r testun.

Mae Lily a'i merch Linda, wedi rhoi o'u hamser i ddysgu a datblygu nifer o blant a phobl ifanc yr ardal. Mae'r seiliau sydd wedi'u gosod ganddynt yn yr Ysgol Sul wedi galluogi cynifer i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, gan roi hyder iddynt gyflwyno a pherfformio yn gyhoeddus, a hynny wastad gyda polish!

Heb os, byddai pob un o blant Ysgol Sul Penybont yn cytuno bod eu dyled yn enfawr i Lily. Un peth sy'n sicr, mae Lily yn mwynhau yng nghwmni'r bobl ifanc. Ac mae'n grediniol taw dyna sy'n ei chadw'n ifanc! Mae'n joio'r cyfle i dynnu coes a chael hwyl, ac mae'n ddiolchgar iawn am gyfraniad holl ieuencid yr ardal.

Diolch Lily am fod yn halen y ddaear ac am eich gwaith diflino dros yr Ysgol Sul ym Mhenybont. Rydych chi wir yn ysbrydoliaeth.

Catrin Parry Williams



Yn y llun mae Lily May, ei merch Linda, Y Parchg Aled Davies a ieuencid y capel

**GWASANAETH
CEIR HENDYGWYN**

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN
CRYMYCH**



Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFôn: 01239 831230

Bwyd Byd

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

C.Ff.I. Penybont

Bu'n gyfnod llwyddiannus i Glwb Ffermwyr ifanc Penybont mewn sawl cystadleuaeth yn ddiweddar. Llwyddwyd i gynnal Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yng nghanol y cyfngiadau, ac roedd gan Glwb Penybont 8 o eitemau yn yr Eisteddfod. Daeth dwy wobwr gynta yn ôl i Benybont. Llongyfarchiadau mawr i Hannah Richards am ddod yn fuddugol yn y llefaru o dan 28ain oed, ac i Barti Unsain C.Ff.I. Penybont am gipio'r wobwr gyntaf hefyd. Llongyfarchiadau hefyd i Celyn Richards am ddod yn 2il am lefaru o dan 18 oed, ac yn 3ydd yn yr unawd o dan 16 oed, ac i Olwen Roberts am ddod yn 3ydd yn y Monolog.

Y Siarad Cyhoeddus Adran Saesneg ddilynodd yr wythnos ganlynol, yn Ysgol Nantgaredig.

Llongyfarchiadau mawr i Celyn Richards am gipio'r Unigolyn Gorau yn yr Adran Ddarllen, i Daniel O'Callaghan am gipio'r Unigolyn Gorau yn yr Adran Ganol, ac i Teleri James am ennill yr Unigolyn Gorau yn yr Adran Hŷn. Cipiodd Penybont y tlws am y tîm gorau yn yr Adran Ganol, sef Elan Thomas, Daniel O' Callaghan, Cao Pryce a Hannah Richards. Ac fe aeth Tlws Yr Adran Hŷn i Benybont hefyd. Llongyfarchiadau mawr i Marek Evans, Teleri James, a Fiona Phillips. Pob hwyl i Celyn, Hannah, Daniel, Marek, Teleri a Fiona a fydd yn cynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru.

Bu Hannah Richards a Daniel O'Callaghan yn perfformio ym Mhanto Nadolig C.Ff.I. Cymru a ddarlledwyd ar S4C ddydd Calan. O do, fe fuon nhw !

Ac wrth gadw at ganllawiau Covid, fe fu aelodau'r clwb yn canu carolau ar drothwy'r Dolig. Llwyddwyd i gasglu £1300 i elusen Tir Dewi. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.



Derbyn tlws adran hŷn Siarad Cyhoeddus Saesneg



Enillwyr adran ganol Siarad Cyhoeddus Saesneg



Celyn Richards, enillydd unigolyn gorau Adran Ddarllen



Enillwyr Eisteddfod C.Ff.I. Cymru

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
 FFENESTRI, DRYSAU, PVC
 YSTAFELLOEDD GWYDR
 A GWTERI
 TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
 01437 563 806 / 07774 812587

CAFFI BECA
 Oriau Agor: 9.00yb-2.30yp
 dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
 Efailwen
 01994 419735

WYN'S TYRES
 BRECIAU ac EGSOSTS
 Galwch i mewn am brisiau cystadleuol
 a gwasanaeth heb ei ail
 UNED 1
WEMBLEY GARAGE
 SAN CLER
 Ffôn: (01994) 231599

HENLLANFALLTEG

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Megan Morris, Bryntaf, Llanfallteg a Sam Pask, Rhyd Rhys Harri, Llanwinio ar eu dyweddïad adeg Nadolig. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Cadi Williams, Blaenlliwe,

Henllan Amgoed sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 18 yn ddiweddar ac am gael ei dewis i chwarae fel mewnwr gyda thîm rygbi rhanbarthol menywod dan 18 y Scarletts Llanelli. Mae Cadi wedi chwarae rygbi i glwb Hendygywyn ar Daf ers yn 7 oed ac ar hyn o bryd yn aelod o dîm dan 18 a thîm menywod y clwb.



Llongyfarchiadau mawr hefyd i aelodau eraill tîm menywod dan 18 Hendygywyn sydd wedi eu dewis.

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae'r cyfnod hwn yn cael ei ddisgrifio fel cyfnod 'hybrid' i'r capeli, sef cyfnod pan rydym yn cael cyfuniad o wasanaethau yn y capeli yn ogystal â gwasanaethau arlein ar 'Zoom'.


Ac fel hynny roedd hi yn y Tabernacl, Hendy-gwyn y Nadolig yma, gydag un o'r gwasanaethau Nadolig yn y capel a'r llall yn cael ei gynnal trwy 'Zoom'.

Y Sul cyn y Nadolig braf oedd gweld 15 o blant yn y capel wrth i ni gael gwasanaeth Nadolig dan ofal y plant. Ni chafwyd yr actio a'r gwisgo lan arferol eleni ond yn hytrach bu'r plant yn adrodd stori'r geni o'u seddi. Er gwaethaf y 'Covid' roedd Siôn Corn wedi llwyddo i adael anrhegion ar gyfer pob plentyn. Yn y llun gwelir y plant gyda'u anrhegion.



Gwasanaeth Nadolig y plant

Yna ar noswyl Nadolig cafwyd Gwynnos trwy 'Zoom' dan ofal yr oedolion ifanc gyda 18 o oedolion ifanc ac ieuencid yn cymryd rhan. Teitl y Gwynnos eleni oedd 'Greta Thunberg a Mair, mam Iesu : dwy annibynwraig a dwy rebel' a chafwyd gwasanaeth arbennig gyda'r oedolion ifanc yn gwneud eu gwaith yn ardderchog.



Gwynnos trwy 'Zoom' yng ngofal yr oedolion ifanc a'r ieuencid.



Cafwyd oedfa fedydd yn y capel ychydig cyn y Nadolig pan fedyddiwyd Alis, merch Caryl a Gerallt Edwards. Dymunwn pob bendith iddynt fel teulu.

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300

IFAN DAVIES

Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES

ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED

a

THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319

Mae nifer o'n haelodau wedi colli anwyliaid dros gyfnod y Nadolig ac rydym yn cydymdeimlo gyda nhw i gyd.

Hefyd ychydig cyn y Nadolig cafwyd casgliad ar gyfer Banc Bwyd Hendy-gwyn. Mae'r Banc Bwyd yn Hendy-gwyn yn gwneud gwaith ardderchog ac fe wnaethant ddosbarthu dros 31,000 o brydiau bwyd yn ystod y flwyddyn diwethaf. Ein braint oedd ceisio ei helpu ychydig gyda casgliad wrth y Tabernacl a hefyd ein cyfeillion yn Trinity, Llanboidy.



Helen (ar y chwith) a Sophie o Fanc Bwyd Hendy-gwyn

O edrych ymlaen at yr wythnosau nesaf, rydym yn cwrdd bob bore Sul am 10.00 yn y Tabernacl ac mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni. Yn ogystal bydd y grŵp trafod yn cwrdd trwy 'Zoom' bob pythefnos dros y misoedd nesaf ac mae croeso i bawb i'r cyfarfodydd yma hefyd.

Hoelion Wyth - Cangen Hendy-gwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr ar Nos Iau'r 2il, fel arfer, yn Lofa Clwb Rygbi Hendy-gwyn. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Claude James gan egluro, oherwydd salwch, nad oedd y siaradwr gwadd yn medru bod yn bresennol.

Yn ffodus iawn daeth un o'r aelodau i'r adwy sef Verian Williams, ein hysgrifennydd ac er nad oedd angen ei gyflwyno i'r gynulleidfa, croesawyd ef a diolchwyd iddo am lanw bwlch ar fyr rybudd.

Brodor o Sir Benfro yw Verian, o ardal Twfton i fod yn fanwl gywir a chafwyd cyflwyniad ganddo, drwy gymorth lluniau, o dan y teitl 'Atgofion'. Dechreuodd yn 1909 a symud ymlaen drwy'r blynyddoedd, gan roi hanesion a dywediadau oedd yn berthnasol i'r ardal honno yn bennaf, ond hefyd i Gymru yn gyffredinol.

Cawsom ganddo hanes ei datcu yn berchen melin wlaen ac yn gwerthu crysau gwlanen o Arberth i Abergwaun a hynny yn yr amser pryd oedd bron pob dyn yn gwisgo crysau o'r fath.

Aeth ymlaen drwy'r 50au a'r 60au gan ddangos, ymysg pethau eraill, y ceir oedd ar yr heol adeg hynny.

Cawsom gan Verian gipolwg ar hanes a'r digwyddiadau pwysig dros y degawdau yng Nghymru ac roedd yn amlwg fod pawb wedi mwynhau'r cyflwyniad yn fawr iawn. Diolchwyd iddo ar ran yr aelodau gan Trefor Evans.

Cyfarfod Ionawr

Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau Covid-19 yng Nghlwb Rygbi Hendy-gwyn, rhaid oedd canslo cyfarfod Ionawr.

Cylch Meithrin Hywel Dda



Dyma Amelia, Faith, Lotti a Jay sydd wedi ffarfelio â staff a ffrindiau'r Cylch cyn y Nadolig. Mae pawb yn y Cylch Meithrin yn dymuno'n dda iddynt ac yn gobeithio eu bod yn mwynhau yn Ysgol Llys Hywel erbyn hyn!

Rhys Jones
Glanhau Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stoffiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiaid llawn

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

Gweithdy Torchau Nadolig



Ar Dachwedd 29ain. casglodd criw ohonom yng Nghanolfan Hywel Dda i fanteisio ar arbenigedd Mary Adams a'i dawn yn trefnu blodau. Cawsom dorch yr un ganddi ac o dan ei hyfforddiant llwyddom i greu addurn Nadoligaidd hardd i roi ar ein drysau, a dyma ni yn eu harddangos!

Clwb Cant Hywel Dda

Dyma ganlyniadau gwobrau Clwb Cant Hywel Dda am fis Rhagfyr 2021.

1af - Steve Byrne £50.
2ail - George a Ann Glanville £40.
3ydd- Peirianwaith Hendygywyn - £30.
4ydd. - Mair McIntee - £20.

Gwobrau Arbennig

1af - Mair McIntee £50.
2ail - Mathew Bowen £50.

Bydd yr un nesa ar Ionawr 11eg, 2022.

Blwyddyn Newydd Dda i'n haelodau!

Gohebydd newydd

Dalier sylw:

O hyn ymlaen, Heather Jenkins yw gohebydd Hendygywyn gyda diolch iddi am gymryd at y swydd.

Manylion cyswllt Heather yw:

Ffôn: 01994 240138

e.bost: jenkins2809@gmail.com

Diolchwn yn ddiffuant i'w rhagflaenydd, Mel Jenkins am ei waith dros nifer fawr o flynyddoedd, ers i'r rhyfyn cyntaf gael ei gyhoeddi. Pob dymuniad da i chi Mel.



Cais am help i ddarganfod aelodau cyntaf Urdd Gobaith Cymru

Wrth i fudiad ieuenctid mwyaf Cymru ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed yn 2022, mae'r Urdd yn chwilio am rai o'r aelodau cyntaf un.

Oeddech chi neu aelod o'r teulu yn aelod o'r Urdd yn yr 1920au, 1930au neu'r 1940au?

Mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers y sefydlwyd yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards. Dyma ambell ffaith i chi o'r gorffennol:

- Sefydlwyd yr Adran gyntaf yn Nhreuddyn, Sir y Fflint yn 1922
- Cynhaliwyd yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf yng Nghorwen yn 1929
- Cafodd Gwersyll Llangrannog ei sefydlu yn 1932 a Glan-llyn yn 1950
- Crëwyd Mistar Urdd yn 1976

Beth yw eich atgofion chi? Helpwch ni i roi straeon ac atgofion yr Urdd ar gof a chadw ar gyfer y ganrif nesaf. Cysylltwch â ni ar helo@urdd.org, 07976 330361 neu gallwch ymuno â'r grŵp Facebook 'Atgofion Aelodau'r Urdd' (www.facebook.com/Urdd100) i rannu lluniau a hanesion difyr o unrhyw ddegawd.



Dyddiau cynnar Eisteddfod yr Urdd

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelfre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg
881630 www.trefigin.cymru 881282



YSGOL GRIFFITH JONES

Cwis Dim Clem



Llongyfarchiadau mawr i dîm 'Dîm Clem' dosbarth Pwyll am eu perfformiad yn rownd gyntaf 'Cwis Dim Clem' Menter Gorllewin Sir Gâr. Perfformiodd y tîm yn wych sef: Llŷr Davies, Mia Gleeson, Cian Grant a Non Thomas.

Mawrth Mwdlyd



Mae Dosbarth Blwyddyn 3 Rhiannon wedi dechrau ar amserlen o weithgareddau awyr agored bob Dydd Mawrth (beth bynnag fo'r tywydd!). Mae'r plant wedi bod wrth eu bodd yn hyrwyddo eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn yr awyr agored.

Cystadleuaeth Eco

Fe drefnodd Cwmni Adeiladu'r Brodyr Jones gystadleuaeth i ddylunio cartref ecogyfeillgar. Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol: Gwobrau 1af – Naomi Miller, Faye Simmons, Jenson Davies a Thomas Allen. Ail wobrau – Neve Rees, Dylan Barber, Daisy Ayyuby a Riley Rees-Thomas.



Bydd gwaith yr wyth plentyn yn cael eu arddangos wrth fynediad safle adeiladu Brodyr Jones yn Heol yr Orsaf yn y dyfodol agos.

Bag2School



Bu'r Pwyllgor Eco, dan arweiniad Miss Carys Evans, wrthi'n brysur yn trefnu casgliad 'Bag2School' ar 16eg o Ragfyr. Daeth rhieni â hen ddillad ar gyfer cael eu hail-gylchu, gan lwyddo i gasglu cyfanswm o £165.00. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Ail-Gylchu

Fe drefnodd y Pwyllgor Eco fod y dosbarthiadau yn creu addurniadau Nadolig o ddefnyddiau wedi eu hail-gylchu eleni. Dewiswyd rhai ohonynt fel rhan o Arddangosfa'r Cymdeithasau yn Eglwys y Santes Fair.

Dathliadau'r Nadolig

Cafwyd cinio a phartïon Nadolig gydag anrheg i bob plentyn.

Croeso

Ar ddechrau blwyddyn newydd, croesawyd 13 o blant newydd i'r ysgol. Gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n gyflym gyda ni.

Dilynwch ni ar ein cyfrif newydd Trydar i glywed am holl newyddion a gweithgareddau'r ysgol: @YGJ92

YSGOL BANCYFELIN**Dathliadau'r Nadolig**

Bu cyfnod y Nadolig yn un prysur eleni, er yn wahanol i'r arfer. Bu disgyblion Ysgolion Bancyfelin, Llangain a Llansteffan yn paratoi calendr Adfent rhithiol dyddiol, a mawr fu'r disgwyl bob bore am y cyfraniad ar dudalen Pobl Bancyfelin, Pobl Llansteffan a Pentref Llangain.



Cynhaliwyd parti Nadolig a roedd Siôn Corn wedi gadael anrhegion ar gyfer y plant drwy haelioni Cyngor Tref San Cler a Meithrinfa Ysgubor Fach, Bancyfelin. Hefyd cafwyd cinio Nadolig blasus wedi ei baratoi gan Miss Lauren.

**Disgyblion Newydd**

Croeso i saith disgybl newydd sydd wedi dechrau yn yr ysgol tymor yma. Gobeithio y byddwch chi gyd yn hapus yn Ysgol Bancyfelin.

Dathliadau 150 mlynedd

Bydd Ysgol Bancyfelin yn dathlu ei phenblwydd yn 150 eleni. Bwriadwn gael diwrnod dathlu ar Ebrill 30ain. Manylion i ddilyn pan fyddwn yn gwybod mwy am reolau COVID ar y pryd.

YSGOL HAFODWENOG

Wythnos Gwrth Fwlio

Fel rhan o weithgareddau Wythnos Gwrth Fwlio cenedlaethol, bu'r disgyblion yn gwisgo sanau dwl am ddiwrnod. Mae Wythnos Gwrth-fwlio yn ddigwyddiad blynyddol a gynhelir yn ystod y drydedd wythnos ym mis Tachwedd sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o fwlio plant a phobl ifanc, mewn ysgolion a mannau eraill, ac i dynnu sylw at ffyrdd o'i atal ac ymateb iddo.



Bag 2 School

Diolch yn fawr i'r holl rhieni/gwarcheidwaid/teulu a chyfeillion yr ysgol am gyfrannu hen ddillad ac ati ar gyfer y cynllun 'Bag2School'. Gwnaethom dderbyn sic o £126.00

Plant mewn Angen

Bu'r disgyblion yn gwisgo pyjamas am gyfraniad o £2. Cafodd pawb pancws, ysgytlaeth a gwahanol weithgareddau yn ystod y dydd. Codwyd £117 at yr elusen.



Dathlu Diwrnod Dashain



I ddathlu diwedd prosiect gydag ysgolion yn Nepal, penderfynwyd cynnal diwrnod Dashain, sef dathliad y crefydd Hindwaidd sy'n cael ei ddathlu yn Nepal. Pawb wedi gwisgo dillad lliwgar ar y diwrnod.

Stondin Nadolig



Bu'r disgyblion yn brysur yn creu cardiau, addurniadau Nadolig a bwyd ceirw ar gyfer y stondin Nadolig gyda'r Cylch Meithrin.

Diwrnod Siwmpwr Nadolig



Gwisgodd pawb siwmpwr Nadolig i'r ysgol am gyfraniad o £1 a chodwyd £59 tuag at 'Achub y Plant'.



YSGOL BRO BRYNACH

Blwyddyn Newydd Dda i ddisgyblion, rhieni a ffrindiau'r ysgol. Croesawn 5 disgybl newydd i'r ysgol tymor yma, gobeithio cewch amser wrth eich bodd yn Ysgol Bro Brynach. Cyn gwyliau'r Nadolig cyrhaeddodd bwrdd picnic newydd yn yr ysgol ar ôl i ddisgyblion dosbarth Lliwedd ennill y gystadleuaeth tyfu tato yn ystod Haf 2021.



Yn y llun gwelir y disgyblion hynny bu'n brysur yn yr ardd yn tyfu'r tato. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.



•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd crystal â newydd.

•RHANNAU SPÂR •GWASANAETH •TEIARS
•BATRIS •WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN
•TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lân - Diodydd**

Ar agor Llun i Sadwrn

11.30 - 20.30

Croeso i chi archebu
ar y ffôn

01994 231482

Heol yr Orsaf,
San Clêr





Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022	PRIS	DIWRNODAU
Iau 3 - 6 Chwefror	Rygbi y Chwe Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN	£349	4 Diwrnod
Gwen 11 - 14 Chwefror	Penwythnos yn GWESTY QUEENS, PAIGNTON	£240	4 Diwrnod
Llun 21 - 24 Chwefror	DISNEYLAND PARIS yn ystod Gwyliau'r Ysgol	???	4 Diwrnod
Llun 28 Chwef - 4 Maw	Amser Hamddenol yn STREET	£275	5 Diwrnod
Gwener 4 -7 Mawrth	DARTMOOR ac ARFORDIR DE DEVON	£275	4 Diwrnod
Sadwrn 12 -15 Mawrth	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - St AGNES	£270	4 Diwrnod
Sul 13 - 14 Mawrth	NOSON YN GWESTY WALDORF, LLUNDAIN	£185	2 Ddiwrnod
Gwener 18 -20 Mawrth	CLIVE a'I FFRINDIAU yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£215	3 Diwrnod
Gwener 25 -28 Mawrth	PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY	£250	4 Diwrnod
Llun 28 Maw - 1 Ebrill	Prydferthwch SOUTH DOWNS yn BOGNOR REGIS	£335	5 Diwrnod
Iau 31 Maw - 4 Ebrill	MÔRDAITH GWATWAROL LLANDUDNO	£425	5 Diwrnod
Iau 7 - 11 Ebrill	CAEAU BLODAU'R ISELDIRIEDD	£495	5 Diwrnod
Gwener 8 - 11 Ebrill	PENWYTHNOS I Ymlacio yn DULYN	£345	4 Diwrnod
Gwener 22 - 25 Ebrill	PENWYTHNOS YN GWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY	£299	4 Diwrnod
Llun 25 -29 Ebrill	RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£450	5 Diwrnod
Llun 2 - 6 Mai	Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION	£465	5 Diwrnod
Gwener 6 - 8 Mai	CRWYDRO TAFARNDAI WETHERSPOONS	£195	3 Ddiwrnod
Gwener 13 - 16 Mai	PENWYTHNOS Braf YN GWESTY PALACE PAIGNTON	£300	4 Diwrnod
Sadwrn 14 - 20 Mai	CRWYDRO O AMGYLCH YNYS HARDD JERSEY	£660	7 Diwrnod
Mawrth 17 - 19 Mai	MEN & MOTORS 1V	£265	3 Diwrnod
Sul 22 - 25 Mai	PUDDING CLUB (Noson blasu pwдинаu) & COTSWOLDS	£345	4 Diwrnod
Iau 26 - 28 Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£299	3 Diwrnod
Llun 30 Mai - 2 Mehef	LLANDUDNO - Croeso Twymgalon Gwesty'r Tynedale	£370	4 Diwrnod
Sul 5 - 10 Mehefin	IWERDDON - KERRY	£600	6 Diwrnod
Llun 6 - 9 Mehefin	DARGANFOD GERDDI DORSET	£360	4 Diwrnod
Llun 13 - 17 Mehefin	Ales and Haunted Tales of LANCASHIRE	£435	5 Diwrnod
Mawrth 21-28 Mehefin	YNYS Hudolus ORKNEY a Chastell MEY CAITHNESS yr ALBAN	£900	8 Diwrnod
Sul 26 Mehef - 2 Gorff	Ymweliad a RHEILFFYRDD "BLUEBELL" EASTBOURNE	£535	7 Diwrnod
Iau 7 - 9 Gorffennaf	GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED	£320	3 Diwrnod
Iau 14 - 16 Gorff	The Royal International Air Tattoo	£290	3 Diwrnod
Gwener 15 - 20 Gorff	YNYS WYTH (ISLE OF WIGHT)	£415	5 Diwrnod
Sul 24 -25 Gorff	LEGOLAND (WINDSOR)	i/g	2 Diwrnod
Llun 25 - 29 Gorff	HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES	£450	5 Diwrnod
Sul 31 Gorff - 4 Awst	Charming Cheshire & The Wirral Peninsula	£435	5 Ddiwrnod
Sul 7 - 12 Awst	LOCHS a DYFRFFYRDD yr ALBAN	£535	6 Diwrnod
Gwener 12 - 15 Awst	ILFRACOMBE	£340	4 Diwrnod
Sad 20-27 Awst	St ANTON, AWSTRIA	£815	8 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau
 Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni
 01994 240908
www.tafvalleycoaches.co.uk



O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu parhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn unol â chyfarwyddiadau'r Llywodraeth parthed cyfyngiadau.

Yng nghanol prysurdeb Nadolig, llwyddodd y Fenter i greu naws Nadoligaidd yn rhithiol mewn noson Gweithdy Torch Drws Nadolig gyda Wendy Davies, Blo-dau Blodwen a Noson Cyd-goginio Pryd Nadoligaidd gyda Lloyd Henry.

Gweithdy Torch:

"Diolch yn fawr Menter Gorllewin Sir Gâr am drefnu noson creu torch rhithiol eleni eto. Rwy'n mwynhau mynd ati i greu torch drws pob blwyddyn, a mae'r Fenter wedi galluogi hyn i ddigwydd. Diolch i Wendy am ei harbenigedd ac amynedd i esbonio planhigion, rwy'n edrych ymlaen i fynd allan i weld beth gallaf weld yn fy ardal er mwyn creu rhywbeth dros y Gwanwyn. Saesneg yw iaith y cartref felly rwy'n ddiolchgar am allu mynychu'r sesiwn yma o'r tŷ gan glywed y Gymraeg. Rwy'n edrych ymlaen at ddod i ddigwyddiad nesaf y Fenter, boed yn ddigidol neu rhithiol".

Groto Siôn Corn:

Dros dau benwythnos ym mis Rhagfyr daeth llawer o blant Gorllewin Sir Gâr i weld a sgwrsio gyda Siôn Corn yn Hendygywyn-ar-Daf a Phencader. Diolch yn fawr i Ganolfan Hywel Dda a Phafiliwn Pencader am y croeso cynnes ac am adael i Siôn Corn wneud ei hun yn gartrefol wrth ddod i adnabod plant a theuluoedd yr ardal a rhoi anrheg bach iddynt. Diolch am ymuno gyda ni a gobeithio fod pawb wedi mynd i'w gwely'n gynnar ar noswyl Nadolig.

Coffi a Chlonc:

Mae'r sesiynau yma sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru.

Clybiau Darllen:

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn trefnu dau glwb darllen yn cwrdd unwaith y mis ar Zoom. Mae clwb dar-

len i oedolion yn cwrdd bob yn ail nos Fawrth y mis am 7yh a chlwb darllen i ddysgwyr yn cwrdd ar nos Fawrth olaf pob mis am 7yh. Dyma gyfle i ddod ynghyd i gymdeithasu a thrafod nofelau cyfoes. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru

Sesiynau stori:

Rydym yn ail-gychwyn sesiynau stori mewn tair ardal sef Caerfyrddin ar ddydd Llun yng Nghanolfan Chwarae Sgiliau ar y 10fed, 17eg, 24ain a 31ain o Ionawr a'r 7fed a 14eg o Chwefror. Yn San Clêr ar ddydd Mercher yn Y Gât ar y 12fed, 19eg a'r 26ain o Ionawr, yr 2il, 9fed a'r 16eg o Chwefror. A sesiynau newydd sbon yng Nghwm-mann ar ddydd Iau yn Neuadd Sant Iago ar y 13eg, 20fed a'r 27ain o Ionawr, ar 3ydd a 10fed o Chwefror. Bydd y sesiynau yn cychwyn am 10:30yb ym mhob lleoliad. Ymunwch â ni mewn sesiwn stori ac ychydig o ganu. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

Adweithg Babi/Plentyn:

Mae'r Fenter yn cynnig dosbarthiadau Adweithg Babi/Plentyn yng ngofal Meleri Brown o Hafan Holistaidd sy'n cael eu cynnal ar ddydd Iau yn Neuadd Ysgol Llanfihangel-ar-Arth yn y bore ac Yr Atom Caerfyrddin yn y prynhawn. Os oes diddordeb gyda chi i fynychu'r sesiynau, cysylltwch gydag alma@mgsg.cymru i gofrestru.

Mae'r Fenter wedi bod yn brysur dros y misoedd diwethaf yn cychwyn ar rowndiau cyntaf Cwis Dim Clem 2021/2022 gyda nifer o ysgolion Gorllewin Sir Gâr yn cymryd rhan, llongyfarchiadau mawr i Ysgolion Beca, Bro Brynach, Cae'r Felin, Cynwyl Elfed, Y Dderwen a Llanpumsaint am fynd drwyddo i'r ail rownd wrth iddynt gystadlu yn erbyn eu gilydd yn rhithiol cyn mynd ymlaen at y rownd nesaf.

Cyfyngau Cymdeithasol:

Gydâ cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraaf, ewch i'n cyfyngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ceris@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris ar y ffôn: 07939 962042.

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law

Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

MASNACHWYR ADEILADU
DAVIES

Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.

Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor



Heol yr Orsaf
Hendygywyn

Ffôn:
01994 240228

Adduned y Flwyddyn Newydd

gan Rob Evans

'Dach chi'n gwneud addunedau'r Flwyddyn Newydd? Blynnyddoedd yn ôl ar y 1af o Ionawr y cwestiwn mawr oedd - "Wyt ti wedi gwneud adduned Blwyddyn Newydd?" a'r cwestiwn yna yn cael ei ddilyn efo "A beth wyt ti wedi penderfynu?" Diolch byth doedd dim llawer o bobl yn gofyn ychydig o wythnosau wedyn "Sut wyt ti'n gwneud efo dy adduned?" Pan o'n i'n ifanc ac yn hollol ffôl yr adduned pob blwyddyn oedd rhoi'r gorau i smygu. Roedd rhoi'r gorau i smygu yn hawdd iawn - nes i hynny lawer gwaith! Ond y tro olaf oedd yr un pwysig, yr un sydd wedi parhau hyd heddiw.

Dw i ddim yn clywed llawer am yr arferiad y dyddiau yma. Ydy pobl yn dal i'w wneud? Achlysur od iawn yw'r flwyddyn newydd, mae fel bod chi'n cael tudalen lân ar y 1af o Ionawr a dyna eich cyfle i newid eich ffordd o fyw. Wel, tydi pob diwrnod yn rhoi tudalen lân i chi, neu bob awr a phob munud? Wrth gwrs eu bod nhw! A diolch byth am hynny achos mae'n annhebyg eich bod chi'n darllen yr erthygl yma ar Ionawr y cyntaf.

Mae dau fath o adduned, yr addewid i beidio gwneud rhywbeth o hynny ymlaen neu'r addewid i wneud rhywbeth. Dydy hi ddim yn bwysig pa bynnag dewis dach chi'n wneud. I'w wneud ac i'w gadw sydd yn bwysig.

Fel pob un ohonoch chi dw i wedi cael fy effeithio gan yr hen pandemig greulon yma ond dw i'n falch o ddweud nid effaith gwael dw i wedi cael. Mae'n wir i ddweud roeddwn i wedi cael fy rhwystro i dreulio amser yn cerdded cefn gwlad yn y dyddiau cynnar, a dw i wedi dod i arfer â pheidio mynd mor aml. Dyna'r effaith negyddol.

Ond mi oedd effaith cadarnhaol hefyd. Chi'n gweld dw i ddim yn hapus os nad oes gen i rywbeth i'w wneud ac roedd y syniad o fod dan glo am fis braidd yn hunllefus. Beth alla i wneud? Blynnyddoedd yn ôl pan o'n i'n diwtor ym Mhowys, roeddwn i'n cyhoeddi cylchlythyr i ddysgwyr o'r enw Y Wennol ac roeddwn yn mwynhau'r profiad. Tybed a fydda i'n gallu atgyfodi'r cylchlythyr? Roeddwn i'n adnabod llawer o ddysgwyr trwy Gymdeithas Edward Llwyd a hefyd trwy grŵp oedd yn cyfarfod yn wythnosol yn yr ardal. Anfonais neges atyn nhw i esbonio'r syniad a gofyn a fydden nhw'n fodlon ysgrifennu erthyglau. O fewn tair wythnos ces i ddigon i lenwi chwe dudalen ac roedd y cylchlythyr allan at bawb o'n i'n adnabod oedd yn siarad Cymraeg erbyn Ebrill 1af.

Mae'n dal i fynd ymlaen a dyma fi wedi cyhoeddi rhifyn mis Ionawr erbyn hyn ac erbyn mis Mawrth bydd Y Wennol wedi cyrraedd ei ail ben-blwydd. Mae 15 dudalen ynddo erbyn hyn a llawer mwy o ddysgwyr yn cyfrannu.

Nid pwrpas yr erthygl hon yw dweud jôc am ba mor hawdd yw hi i roi'r gorau i smygu. Na, yn hytrach i bwysleisio gwerth cael dysgwyr i'n cymunedau a'n cymdeithasau - mae'n nhw'n barod i gyfrannu, yn wir mae'n nhw eisiau cyfrannu. Edrychwch ar oedran aelodaeth eich cymdeithasau a gofynnwch faint fydd dal yna mewn deng mlynedd. Dw i'n sicr byddech chi'n gweld bod rhaid i chi gael aelodau newydd, aelodau brwdfrydig.

Mae'r bobl fydd yn achub ein cymdeithasau, ein cymunedau a'n hiaith yna yn eich dosbarth nos leol. Gwnewch yn siŵr bod chi'n dod i adnabod eich tiwtor lleol er mwyn i chi agor eich drysau i'ch dysgwyr. Os ydyn nhw yn ein cymunedau bydden nhw'n gwneud gwahaniaeth.

Trefnwch fore coffi iddyn nhw yn rheolaidd a rhoi'r cyfle iddyn nhw ddod i'ch adnabod chi. Ni fydddech yn difaru!

Emrys ac Ann Murrow

Motel Nantylfin Llandissilio



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD

Croeso i
gleifion GIG!

Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaidd GIG

Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk



Cartref Oddi Cartref
Y GARREG LWYD, HEOL SALEM, SANCLER



FFONIWCHE SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
01994 230855



Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk



Nifer y dyddiau			Nifer y dyddiau		
Ebrill			Awst		
Llun 4	Efrog - ‘A Ramble in the Shambles’	5	Llun 1, Mer 3 a Gwe 5	Eisteddfod Genedlaethol	1
Maw 26	<i>Lord of the Dance 25, Theatre Newydd, Caerdydd</i>	1	Gwe 5	BBC Countryfile Live yn Castell Howard	4
Sad 30	<i>Strictly Come Dancing - Y Dawnswyr Proffesiynol</i>	1		a Pharc Genedlaethol Dales Swydd Efrog	
Mai			Maw 30	Gwibdaith Dirgel	1
Sad 7	<i>Sioe Gerdd - Six The Musical, CMC</i>	1	Medi		
Sad 7	Saffari Siocled	2	Llun 5	Ardal y Llynnoedd	5
Llun 9	Iwerddon - Sligo a'r ‘Wild Atlantic Way’	6	Llun 12	Eastbourne	5
Llun 16	Lock, Stock a'r BBC	5	Sad 17	Gwyl Fwyd y Fenni	1
Sad 21	<i>Sioe Gerdd - School of Rock, CMC</i>	1	Maw 20	Cerddoriaeth Bond - Neuadd Brenhinol Albert	2
Llun 23	Gwesty Warner - Neuadd Alvaston	5	Gwe 23	Feast Your Pork Pies on Melton Mowbray	5
Iau 26, Gwe 27 a Sad 28	<i>Ed Sheeran, Stadiwm Principality</i>	1	Hydref		
Sad 28	<i>Sioe Gerdd - Singin’ in the Rain, CMC</i>	1	Llun 3	Iwerddon - Kerry a Dingle	6
Mehefin			Gwe 14	Stratford-upon-Avon	4
Gwe 10	Caerfaddon a Briste	4	Sad 15	<i>Sioe Gerdd - South Pacific, CMC</i>	1
Mer 15	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3	Sad 29	<i>Sir Bryn Terfel - Songs & Arias, NDS</i>	1
Sad 18	Gwibdaith Sir Benfro	1	Tachwedd		
Sad 25	Yr Alban - Dumfries a Galloway	7	Gwe 4	Riviera Lloegr - Twrci a Tinsel, Paignton	4
Gorffennaf			Sad 5	<i>Sioe Gerdd - Sister Act, CMC</i>	1
Sad 9	<i>Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC</i>	1	Gwe 11	Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire	4
Llun 11	‘From a Lofty Height to the Isle of Wight’	5	Sad 19	Nadolig ar y Coblau (Coronation Street)	2
Maw 19 a Mer 20	<i>Sioe Frenhinol Cymru</i>	1	Gwe 25	Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod	3
Iau 21	Llandudno	5	Sad 26	Gwyl Olau Longleat	2
Iau 28	Castell Highclere (Abaty Donwnton)	2			

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!

Tîmau pêl-droed merched San Clêr 1969



Braf yw cael cyfle i edrych nôl ar luniau lleol a dyma lun o ddau dîm bêl-droed merched San Clêr yn y flwyddyn 1969. Credir bod yna gêm rhwng y ddau dîm, fel rhan o ddathliadau arwisgiad y Tywysog Siarl. A ydych yn adnabod ambell wyneb? Diolch am gael rhannu'r llun.

PREN DA
 Gwaith coed o bob math
Dafydd Makepeace
 Fferm y Cross
 Llandysilio
 Clunderwen
 Ffôn: 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD

 Cig o'r ansawdd gorau
 Heol y Pentre
 San Clêr
 Ffôn: 01994 230062
 Diolch am eich cefnogaeth

GRIFFITHS
Hen - Dy - Gwyn
CONTRACTWYR ADEILADU
Gwasanaeth Cyflawn
 Wernddu
 Stryd y Brenin Edward
 Hendygywn ar Daf
 SA34 0AA
 Ffôn: 01994 240534
 Symudol: 07966 411443



Llwyau Caru



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae Bwgi-bo yn chwilio am
anrheg Santes Dwynwen ac am brynu'r
llwy garu sydd â'r nifer fwyaf
o galonnau.

Fedrwch chi ei helpu i ddewis
yr un gywir?



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 8/2/22

Dydd Santes Dwynwen hapus, bawb!

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2022



Bydd enw enillydd y
gystadleuaeth yn cael ei
gyhoeddi yn y rhifyn nesaf.



PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus iawn i Deri Nicholas, Y Mans, Hebron oedd yn 8 oed ar Ragfyr 17eg ac i'w frawd mawr Tomos yn 10 oed ar Ionawr 26ain. Cariad wrth Dadi, Mami, Tadcu a Mamgu Tyddyn, Mamgu Tegs a Dadcu a Mamgu Rosebush.



Penblwydd Hapus iawn i Ema Farnden, a oedd yn 3 oed ar Ionawr yr 8fed. Cariad mawr oddi wrth Mami, Dadi, Mamgu a Dadcu Glynty Farm, Clunderwen.



Penblwydd Hapus diweddar i Nel Beti Phillips, Bwlch Glas, Hermon a oedd yn 10 oed ar y 26ain o Dachwedd - merch Kevin a Mari a chwaer fach Iolo, Dion ac Ina.



Penblwydd Hapus i'r cyfnithier a'r cefnder Ffion Leeke o Hensol a oedd yn 4 oed ar Ionawr 2il a Daniel James o Benybont ar Ogwr a fydd yn 4 oed ar Chwefror 27ain. Daw'r cyfarchion oddi wrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn, Pwll Trap), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd Hapus Luned yn 6 oed ar Chwefror 2il, mwynha dy ddiwrnod. Cariad mawr, Dadi, Mami, Aneurin, Mamgu a Datcu Colman House a Mamgu Bwlch.



Penblwydd Hapus i Heti Marged Davies, Penygae, a oedd yn 7 oed ar y 23ain o Ragfyr, merch fach Nev a Sharon ac wyres y diweddar Spence a Margaret Harries.



Penblwydd Hapus iawn i Lleucu Rees o Tymawr, Pentregalar, Crymych a fydd yn 2 mlwydd oed ar Ionawr y 31ain. Cariad mawr wrth, Mam, Dad, Megan, Gwen, Mamgu a Dadcu Golygfa'r Cwm, Mamgu Tymawr a'r teulu i gyd xx



Pen blwydd Hapus i Tanto Ben, a fydd yn 1 oed ar y 4ydd, mab bach Ifan ac Emily (gynt o Clunderwen, newydd symud i Hi Winds, Cold Blow), ŵyr i Ken a Lynys, a Graham ac Helen Banner, Hwlffordd.



Penblwydd Hapus i Rhys Biggs o Warrington a oedd yn 9 oed ar 15fed o Ionawr. Bu'r teulu yn dathlu'r Nadolig yng Nghwmfelin Mynach a gwelir Rhys yn eistedd ar ei feic newydd a gafodd yn anrheg Nadolig. Gyda chariad wrth Dad, Mam a Glyn; tadcu a mamgu Blaenffynnon a'r teulu i gyd.

Clwb Rygbi Hendy Gwyn

Tachwedd 27ain - Aberystwyth 31 Hendy Gwyn 26 - Gêm gorfforol gyda Aberystwyth yn ennill ym munudau diwethaf o'r gêm. Sgorodd Dylan Richards dau gais i Hendy Gwyn a llwyddodd Nico Setaro gyda dau drosiad a 4 cic gosb.

Rhagfyr 4ydd - Penfro 22 Hendy Gwyn 29 - Gêm galed arall yn y gwynt a'r glaw, roedd hi'n drwm iwn o dan draed ond gwnaeth y pac weithio'n galed gan osod sail cadarn i sicrhau buddugoliaeth. Sgorodd Dylan Richards dau gais a sgorodd Ollie Hughes a Josh Thomas gais yr un. Llwyddodd Nico Setaro gyda 3 trosiad ac I cic gosb. Rhagfyr 11eg - gêm i ffwrdd erbyn Llangennech wedi ei ohirio, i'w chware ym mis Mawrth

Rhagfyr 18fed - gêm i ffwrdd erbyn Tregwyr wedi ei gohirio, i'w chware ym mis Ebrill.

Ionawr 8fed - gêm adre erbyn Felinfoel wedi ei gohirio, i'w chware ym mis Ebrill.

Gemau i ddod ym mis Ionawr:

15fed - I ffwrdd erbyn Yr Hendy

22ain - Adref yn erbyn Abergwaun (Cwpan Sir Benfro)

29ain - Adref erbyn Penclawdd

Menywod

Ionawr 16eg - Adre erbyn Bonymaen

23ain - I ffwrdd erbyn Porth Tywyn

parhad o dudalen 36



Jac Griffiths - Capten Tîm Cyntaf Llanboidy am 2021-22

Rhodri Lewis

Am fwy o wybodaeth am pryd mae'n gemau - ewch ar wefan "Ceredigion League". Bydd croeso cynnes yn aros amdanoch lawr ar gae Cae Dandre pob amser.

Dymuna papur bro y Cardi Bach bob llwyddiant i glwb pêl droed Llanboidy.

Dylan Blain

Is-reolwr Clwb Pêl-droed Tre Llanelli



Llongyfarchiadau i Dylan Blain, gynt o Gwmfelin Mynach sydd wedi ei benodi yn is-reolwr i glwb pêl-droed tre Llanelli gyda'r rheolwr Lee John. Mae'r ddau wedi symud yno o Goytre Utd.

Bu Dylan yn chwarae gyda Llanelli, Hwlfordd, Port Talbot a'r Drenewydd yn uwch

gynghrair pel-droed Cymru.

Mae cysylltiad agos gyda Dylan â chlwb Tre Llanelli oherwydd i'r teulu ddod o'r ardal a hefyd i'w henn-ddadcu chwarae dros y clwb ar ddechrau'r 1920au.

Mae Dylan yn Gyfarwyddwr Academaidd Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored, Pridysgol Cymru Drindod Dewi Sant.


Mae brawd Dylan, sef Daniel, yn chwarae i glwb pêl-droed Llanboidy.

CHWARAEON - Clwb Pêl-droed Llanboidy

Yn 2020 roedd Clwb Pêl-droed Llanboidy yn dathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu, er ni chafodd unrhyw ddathliad gan ein bod ynghanol yr amser ansicr yma. Er hyn, gob-eithio bydd dathliad gyda ni fel Clwb yn ystod y flwyddyn nesaf i ddathlu'r pen-blwydd yma. Heddiw mae dau dîm gyda'r Clwb, gyda'r tîm cyntaf yn chwarae yn adran 1af Ceredigion a'r ail dîm yn chwarae yn 3ydd adran Ceredigion. Mae'r Clwb yn ymarfer yn wythnosol yn ystod y tymor ar nos Fawrth, yn Cae Dandre, Llanboidy am 6yh.

Bruce Scourfield sydd yn cadw'r Clwb i fynd ar hyn o bryd, gan sicrhau fod rhediad y Clwb yn llwyddiannus oddi ar y cae, tra bod Paul Williams, gyda chymorth Paul Jenkins, yng ngofal y tîm cyntaf gyda Bruce Scourfield a Rob Morgan yng ngofal yr ail dîm. Jac Griffiths yw capten y tîm cyntaf am dymor 2021-22, gan gymryd drosodd wrth Rhys Jenkins. Rydym yn ddiolchgar iawn i Rhys am fod yn gapten gwyb dros y blynyddoedd diwethaf. Capten yr ail dîm am dymor 2021-22 yw Chris Bowen.

Tîm cyntaf



Tîm Cyntaf y Clwb yn eu crysau (Oddi Cartref) newydd

Dechreuwyd y tymor ym mis Awst 2021, gyda gêm i ffwrdd yn erbyn ein cymydog - Crymymch. Er cawsom ddechreuad da gyda Steffan Williams yn sgorio yn yr hanner cyntaf, siom oedd i ddilyn gan i ni golli o 3 gôl i 1. Ers y golled yma, braf yw medru adrodd bod tîm cyntaf Clwb Pêl-droed Llanboidy yn eistedd ar frig adran gyntaf Ceredigion a hynny am y tro cyntaf yn hanes y Clwb.

Mae buddugoliaethau yn y gynghrair wedi dod yn erbyn Ffostrasol, Aberteifi (adref ac oddi cartref), Llandysul (adref ac oddi cartref), Sêr Dewi (adref ac oddi cartref), Cei Newydd, a Llambled gan golli yn erbyn Crymymch, Llambled a Felinfach. Rydym wedi sgorio 44 gôl yn ystod y 12 gêm yma, gyda goliau yn dod i Tomos Rogers (10), Gethin Scourfield (9), Ifan Phillips (6), Rhys Jenkins (6), Steffan Williams (3), Ewan Jones (2), Frazer Wyatt (2) a gôl yr un i Dafydd Jones, Celt Thomas Jones, Dafydd Vaughan, Jac Griffiths a Ross McDonald.

Yn ogystal â chwarae yn Adran 1af Ceredigion, rydym hefyd yn cystadlu mewn sawl cwpan; Cwpan Cynghrair,

Cwpan Coffa Dai Dynamo a hefyd Cwpan J Emrys. Yn anffodus, collwyd ein gêm yn erbyn Aberaeron sydd yn chwarae yn adrannau uwch yng nghwpan J Emrys, ond hyn ar ôl gêm agos iawn gan golli ar giciau o'r smotyn. Curwyd tîm cryf o Llechryd yn ail rownd cwpan Coffa Dai Dynamo Davies o 2-1, gyda goliau yn dod gan Jac Griffiths a Ifan Phillips.

Ail Dîm

Dechreuodd tymor yr ail dîm ar ddydd Sadwrn, 4ydd o Fedi 2021 a hynny adref yn erbyn ail dîm Maesglas gan ennill o 7 gôl i 1. Ers hynny, mae wyth gêm wedi cael ei chwarae - ennill 5 gêm, 1 gêm gyfartal a colli 2 gêm erbyn ail dîm cryf iawn Llanilar, (sydd yn eistedd ar frig y gynghrair ar hyn o bryd) ac erbyn ail dîm Crymymch adref. Er hyn, gallai'r ail dîm fod yn hapus iawn o eistedd yn 2il yn yr adran.

Yn ogystal â churo Maesglas, mae buddugoliaethau wedi dod yn erbyn Llechryd, Felinfach, Castell Newydd Emlyn a Chrymymch, gyda gêm gyfartal yn erbyn Felinfach.

Yn ystod yr 8 gêm, mae'r tîm wedi sgorio 24 gôl, gyda'r goliau yn dod i Dan Blain (6), Cameron Jenkins (3), Dafydd Jones (3), Dion Morgan (3), Ryan Pearce (2), Owen Jenner (2), a gôl yr un gan Ashton Arnold, Chris Bowen, Ben Harvey, Ifan Jones a gôl i rwyd eu hun.

Bydd yr ail dîm hefyd yn chwarae yng nghwpan "South Cards" yn erbyn Ffostrasol.

Dechreuad ardderchog i ddau dîm Clwb Pêl-droed Llanboidy, ac er ei bod yn gynnar eto - y gobaith yw bod

y ddau dîm yn medru parhau gyda'r llwyddiant hyd yma, am weddill y tymor. Diolch yn fawr iawn i holl noddwyr a chefnogwyr y Clwb am y flwyddyn - rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cefnogaeth.



Tîm Cyntaf yn cynhesu cyn gêm

parhad ar dudalen 35